PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 456 | Chwefror 2023

**Teyrnged i 'Bones'** t.10





**O Bwyth i Bwyth** t.15


**Cofio Des Hayes** t.8





## CIT NEWYDD

Tîm dan 7 Penrhyn-coch yn eu citiau newydd! Diolch i GwesTY, Ffordd y De, Aberystwyth



**FFOTOGRAFFYDD IFANC**

Llongyfarchiadau i Megan Griffiths ar ddod yn gyntaf yng nghategori dan 16 Cystadleuaeth Ffotogfraffiaeth y Gaeaf ar Heno ddiwedd Ionawr. Dyma yr ail waith i Megan ennill.

## Gwobr i Gwyneth



Llun: Dan Wooller

Llongyfarchiadau i Gwyneth Keyworth am ennill y wobr am yr actores gorau mewn rol gefnogol yng ngwobrau *What's on stage* nos Lun 12 Chwefror am ei rhan fel Scout Finch yn addasiad Aaron Sorkin o nofel glasurol Harper Lee To kill a mocking bird.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**RHIFYN CHWEFROR Dyddiad cau** Mawrth 3 **Dyddiad cyhoeddi** Mawrth 15

**CHWEFROR 15** Nos Fercher Noson yng nghwmni Emyr Lewis Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**CHWEFROR 17** Nos Wener, Noson yng nghwmni Ian Gwyn Hughes, Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus, Cymdeithas Bêl-droed Cymru Cymdeithas Lenyddol y Garn yng Nghapel y Garn am 7.30 o'r gloch

**CHWEFROR 17** Nos Wener Burum – band jazz – yn Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth am 7.30 £10.00 o flaen llaw £12.00 wrth y drws

**CHWEFROR 18** Dydd Sadwrn Taith gerdded Ar Gered o Cletwr i Fedd Taliesin a gorffen yn Nhre'r-ddol am 10.30 Croeso cynnes i siaradwyr Cymraeg o bob lefel gan gynnwys dysgwyr

**CHWEFROR 21** Nos Fawrth Ynyd Noson Grempog ac Adloniant yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 7.00

**CHWEFROR 21** Nos Fawrth Arddangosfa gan Elizabeth Gordon Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r Cylch yn Neuadd Llanfarian am 7.00

**CHWEFROR 23** Nos Iau Neil Rosser a Gildas yn y Cŵps, Aberystwyth am 7.00 £12.00 Gigs Cantre'r Gwaelod

**CHWEFROR 25** Nos Sadwrn Noson Hwyl Ddewi yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 6.30.Cawl i gychwyn yna adloniant yng nghwmni Iwcadwli. Mynediad £8 Plant £2 Tocynnau gan Phil Davies (gwynionydd@btinternet.com)

**MAWRTH 2** Dydd Iau, Diwrnod y Llyfr.

**MAWRTH 2** Nos Iau Twmpath a chawl i'r teulu cyfan yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyncoch, rhwng 5-7. Croeso i bawb. Tocynnau gan yr ysgol.£5 y person neu £15 y teulu. Pawb i ddod â phowlen a llwy eu hunain

**MAWRTH 3** Nos Wener Cân i Gymru Avanti yn recordio yng Nghanolfan y Celfyddydau

**MAWRTH 4** Dydd Sadwrn Pared Gŵyl Ddewi Aberystwyth. Ymgynnull wrth gloc y dref erbyn 12.45 ac yn ymlwybro lawr y Stryd Fawr i'r Sgwâr SY23 2AP

**MAWRTH 5** Nos Sul Ysgoloriaeth Bryn Terfel yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau am 6.00

**MAWRTH 8-9** Rhagbrofion (Mercher) ac Eisteddfod (Iau) yr Urdd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth

**MAWRTH 9** Nos Iau Theatr Bara Caws yn cyflwyno Cariad yn oes y Gin gan Chris Harris yn Theatr y Werin am 7.30

**MAWRTH14** Nos Fawrth Noson Coffa, Coffi a Chwis (er cof am y diweddar Barch. Lyn Lewis Dafis a'r diweddar Glyn Collins) yn Neuadd Eglwys Penrhyn-coch. Am 7.00 Croeso cynnes i bawb. Mwy o fanylion ar dudalen Facebook Eglwys Penrhyn-coch.

**MAWRTH 17** Nos Wener Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Gwenan Gibbard – manylion i'w cadarnhau Cymdeithas Lenyddol y Garn

**MAWRTH 18** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yn Nhafarn y Maes, Capel Bangor. Gwraig wadd: Catrin M S Davies. Enwau i a mwy o fanylion gan Ceris Gruffudd


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


## Rhoddion

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**Cyngor Cymuned Trefeurig** £250
**Cyngor Cymuned Melindwr** £150

# 30 mlynedd yn ôl



Daeth Alun Jones, Clawddmelyn, Penrhyn-coch i'r brig mewn cystadleuaeth yn Sioe Aeaf Da Tew Cymru a gynhaliwyd yn Llanelwedd cyn y Nadolig. Enillodd y wobr gyntaf am y pâr gorau o ŵyn tew mewn cystadleuaeth agored yn adran y Defaid Mynydd Penfrith allan o rhyw ddwsin o gystadleuwyr ar ei gynnig cyntaf. Da iawn Alun! Dyma Alun gyda Mr Robert Rattray, Aberystwyth, y bwtsier a brynodd yr ŵyn tewion. (o *Dincer* Chwefror 1993)

Annwyl Olygydd

Roeddwn yn gwerthfawrogi derbyn y gwahoddiad i fod yn Dywysydd Parêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth 2023 ar ddydd Sadwrn Mawrth 4ydd ac yn ei ystyried yn anrhydedd ac yn fraint o gael bod mewn llinach mor arbennig.

Hoffwn wahodd pob un o'ch darllenwyr i ymuno yn hwyl y digwyddiad ac i gerdded y Parêd gyda ni. Gadewch i bobol eraill gymeradwyo ar y palmentydd.

Mae'r Parêd yn haeddu ein cefnogaeth am sawl rheswm ac yn bennaf am ei fod yn ddathliad Cymraeg cyhoeddus sy'n creu impact mawr ar dref Aberystwyth. Rwy'n ystyried Parêd 2023 gyda'r pwysicaf, a hynny mewn ymateb i ganlyniad y Cyfrifiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr. Tra bydd rhai yn digalonni o ddeall bod gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg fe ddylai y newyddion ein hysgogi ni i ymgymryd yn bositif â'r her a'r sialens, gyda brwdfrydedd newydd, i sicrhad llewyrch i'r iaith a'r diwylliant a'n hunaniaeth ni fel cenedl.

Gadewch i ni wneud y Gymraeg yn iaith hwyl a phleser ac yn gyfrwng llwyddiant i bawb. Dewch i ni fod gyda'n gilydd yn y Parêd (beth bynnag fydd y tywydd) ac wrth droedio strydoedd Aberystwyth dangoswn ein bod yn **troi'r gornel** yn hyderus i sicrhau llewyrch a llawer mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ein bywyd bob dydd yng Ngheredigion.

Bydd y Parêd yn ymgynnull wrth Gloc y Dre erbyn 12.45 ac yn ymlwybro i lawr y Stryd Fawr i Ffordd y Môr i'r Sgwâr SY23 2AP. Mae'n hawdd ei gerdded.

Gan edrych ymlaen i **droi'r cornel** yn eich cwmni

Wyn Mel
Llanfihangel Genau'r-glyn

**Trenau**

Rhyddhawyd ystadegau gan Swyddfa Ffigyrau Rheilffyrdd a Ffyrdd Cymru o deithwyr o orsafoedd rheilffordd

| | 2021/22 | 2019/20 | |
|---|---|---|---|
| Bow Street | 13,694 | -- | |
| Y Borth | 32,764 | 55,634 | -41% |

# CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Ionawr 2023

**£25** (Rhif 177) Kathleen Lewis, Llys Alban, Bow Street
**£15** (Rhif 238) Llywelyn Evans, Rhyd y Ceir, Capel Madog
**£10** (Rhif 41) Meinir Chambers, Garn Isaf, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol ym Mhwyllgor Sioe Capel Bangor
Cofiwch os ydych yn aelod o'r Cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi ymaelodi.

# Ysgoloriaeth Bryn Terfel

Cynhelir yr Ysgoloriaeth yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am **6:00yh** o'r gloch ar nos Sul y **5ed o Fawrth 2023**.
Dyma'r chwe fydd yn cystadlu am yr Ysgoloriaeth eleni.

- Owain Rowlands (Aelod unigol Blaenau Tywi)
- Ioan Wyn Williams (Adran Bro Taf)
- Fflur Davies (Cylch Arfon)
- Mali Elwy (Adran Bro Aled)
- Gwenno Morgan (Aelwyd Llundain)
- Rhydian Tiddy (Cylch Blaenau Tywi)

Dyma ddigwyddiad sydd yn rhoi cyfle arbennig i berfformwyr ifanc Cymru i arddangos eu talent, ac yn brofiad amhrisiadwy i'w datblygiad personol. Cysylltwch gyda Eisteddfod@urdd.org neu Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth am fwy o wybodaeth.

**Rhifyn Mawrth**
Dyddiad cau: Mawrth 3
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 15













# Llandre

**Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn**
**Gwasanaethau'r Sul**

*Chwefror*
**5** Cymun Bendigaid 9:30 y bore
**12** Boreol Weddi 9:30 y bore
**19** Cymun Bendigaid 9:30 y bore
**26** Hwyrol Weddi 3:00 y prynhawn

*Mawrth*
**5** Cymun Bendigaid 9:30 y bore
**12** Boreol Weddi 9:30 y bore
**19** Cymun Bendigaid 9:30 y bore
**26** Hwyrol Weddi 3:00 y prynhawn

Mae'r eglwys ar agor bob dydd rhwng tua 10:0 y. b. a 4:00 y.p. Croeso i ymwelwyr.

**Gwasanaeth Traddodiadol o Lithau a Charolau**


Pleser oedd croesawu oddeutu 65 o addolwyr i eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn ar 21 ain Rhagfyr, i fwynhau gwasanaeth gorfoleddus o lithau a charolau.

Seiliwyd trefn y gwasanaeth ar Ŵyl Naw Lith a Charolau a luniwyd gan Edward Benson, Esgob Truro yn 1880.

Agwedd nodedig o'r gwasanaeth oedd y cyfeiliant hyfryd i'r canu gan Seindorf Arian Aberystwyth. Maent wedi dod yn rhan annatod o'r dathliad hwn ers blynyddoedd lawer. Rydyn ni'n ddiolchgar iddynt am eu parodrwydd i gymryd rhan Y Parch Nicholas Bee arweiniodd y gwasanaeth, gan adrodd y Gweddi Atolygol a darllen o'r gospel yn ôl Ioan. Darllenwyd y llithau eraill gan aelodau o'r gynulleidfa.

Ar ôl y gwasanaeth, arhosodd llawer o'r gynulleidfa i rannu danteithion arferol y tymor, ac i gymysgu â hen ffrindiau ac i gwrdd â rhai newydd.

Edrychwn ymlaen at barhau â'r traddodiad hwn y flwyddyn nesaf.



Dymuniadau gorau i Wynne fel Tywysydd Pared 2023. Fore Sul 5 Mawrth cynhelir gwasanaeth unedig ym Morlan am 10.00. Croeso cynnes i bawb.



## Côr Meibion Aberystwyth

Ar ôl ychydig o seibiant dros y Nadolig mae'r côr wedi ail ddechrau ymarfer ar gyfer perfformiadau yn 2023. Braf iawn oedd croesawu tri wyneb newydd i gyfarfod cyntaf y côr ac, fel mae'n digwydd, tri bariton yw nhw. Ymlaen nawr i recriwtio tenor neu ddau, neu fwy!

Un o brif ddigwyddiadau i aelodau'r côr eleni fydd cymryd rhan yn y Cyngerdd Canol Haf yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd ar y 24ain o Fehefin. Bydd dros 30 o gorau meibion yn cael eu cynrychioli yn y digwyddiad arbennig hwn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â Chôr Meibion Aberystwyth -

unrhyw lais, dewch atom ni, bydd yna groeso cynnes i chi. Cynhelir ymarferion y côr yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth bob nos Iau rhwng 7.00 a 8.15 o'r gloch.

## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau Ionawr 19 gyda'r cadeirydd Jim Palmer yn y gadair. Croesawodd bawb i gyfarfod cyntaf 2023. Roedd yna 8 o gynghorwyr cymuned yn bresennol a hefyd y Cynghorydd Sir Rhodri Davies

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf - sef mis Tachwedd 2022 fel rhai cywir.

Roedd y Cyngor wedi derbyn rhai ceisiadau am arian oddi wrth rhai mudiadau lleol ac eraill. Cafodd rhain eu trafod yn y cyfarfod. Eleni penderfynnodd y Cyngor Cymuned gefnogi Sioe Capel Bangor, *Y Tincer*, Merched y Wawr Cangen Melindwr, Ffrindiau Cartref Tregerddan, Ysgol Pen-llwyn, Cymuned Goginan, Cyngor ar Bopeth Ceredigion, Gofal Cancr Tenovus ac Ambiwlans Awyr Cymru. Rhannwyd cyfanswm o £1,800 rhwng y mudiadau.

Trefnwyd hyfforddiant cymorth cyntaf defnyddio diffibliwr noson yr 20/01/2023 a chafwyd noson hwyliog a buddiol yng ngwmni aelodau'r gymuned. Diolch i Sant Ioan Cymru am yr hyfforddiant.

Gobaith y Cyngor Cymuned yw trefnu noson ar gymorth cyntaf yn y cartref yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Cynhelir cyfarfod mis Chwefror yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor ar nos Iau 16eg am 7.30yh.

## Dôl-y-bont

**Croeso a chydymdeimlad**

Estynnwn groeso i Mrs. Rosalyn Edwards a'i merch Mary sydd wedi symud i fyw yn Glangro. Gobeithio y byddwch yn setlo yn y pentref. Yn anffodus, bu farw gŵr Rosalyn a thad Mary fel yr oeddynt yn paratoi i symud i Dôl-y-bont a chydymdeimlwn â nhw hefyd ar eu colled.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Catrin a Luke, Troedrhiwlas, ar enedigaeth bachgen bach, ŵyr bach arall i Dick a Beryl, Troedrhiwceir.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a Elen, Mark, Rhydian a Seren Y Gamlyn yn ei colled. Bu farw eu mam-gu adeg y Nadolig.

**Cinio Urdd y Gymuned**

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol yn Nhafarn y Maes pryd y daeth naw ar hugain o drigolion y cylch i fwynhau pryd blasus iawn. Cafwyd noson ddifyr iawn yn sgwrsio a chymdeithasu. Diolch i staff Y Maes am eu croeso.

**Capel Llwyn-y-groes**


Erbyn hyn mae arwydd ar werth y tu allan i'r Capel. Beth yw ei ddyfodol tybed?

**Parti Nadolig**

Plant bach yr ardal yn mwynhau eu hunain yn y parti Nadolig yng nghwmni Sion Corn.



Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem
Gwefan Cymuned Trefeurig
trefeurig.cymru
- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer
Gwefan Trefeurig Website Trefeurig8
whhowells@gmail.com



GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580



STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi
Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Mid Wales Removals
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

YTincer@googlemail.com

# Y Borth

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Rhiannon a Neeson Richards a'r teulu, Ffordd Clarach ar farwolaeth mam Rhiannon - Mrs Beti Watkin a oedd yng Nghartref Cysgod y Coed, Llanilar.

**Meddygfa'r Borth**

Mae pryder am ddyfodol meddygfa'r Borth oherwydd trafferthion recriwtio.

Mewn neges ar dudalen Facebook ym mis Ionawr, dywedodd y ddau feddyg sydd wedi cynnal y feddygfa ers blynyddoedd - Dr Hosker a Dr Fish - eu bod "â chalon drom" yn gorfod cyhoeddi y bydd y feddygfa'n gorfod cau onid oes modd recriwtio meddygon teulu ychwanegol.

Gyda Dr Hosker wedi ymddeol a Dr Fish ar fin ymddeol, maen nhw wedi bod yn chwilio am feddygon teulu newydd i weithio yn y Borth ers sawl blwyddyn. Nid yw'r ymdrechion hynny wedi dwyn ffrwyth hyd yma ac mae'r hysbyseb ar gyfer y swydd yn parhau ar wefan Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Mae mudiad Borth 2030 wedi cychwyn deiseb yn galw am drafodaethau brys ar fyrder rhwng y Bwrdd Iechyd a'r feddygfa.

Hyd yma, mae bron i 700 o bobl wedi llofnodi'r ddeiseb sydd ar gael arlein ar Change.org neu mewn person ym meddygfa'r Borth, fferyllfa'r Borth, siopau Nisa a Premier Stores, caffi Cletwr a'r Spar yn Bow Street.

Dywed y ddeiseb: "Mae meddygfa'r Borth wedi darparu gofal sylfaenol ardderchog i bobl Gogledd Ceredigion ers degawdau. Ers blynyddoedd lawer mae'r feddygfa wedi cael ei chynnal gan ddau bartner ond ar hyn o bryd Dr Sue Fish yw'r unig feddyg teulu yno. Er bod y feddygfa yn cyflogi sawl gweithiwr iechyd proffesiynol arall, mae'r cytundebau presennol yn gofyn i feddyg teulu fod ar gael pryd bynnag mae'r feddygfa ar agor. Er i'r practis hysbysebu am bartner newydd ers nifer o flynyddoedd, cafwyd neb. Mae'n debygol y bydd Dr Fish yn ymddeol yn hwyrach yn y flwyddyn, ac yn ôl y gyfraith, bydd yn rhaid iddi ddychwelyd y cytundeb darparu gofal sylfaenol yn ein hardal i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Wedyn bydd BIPHB yn penderfynu beth ddylai ddigwydd i'r feddygfa ac i'r cleifion.

"Rydym yn gofyn yn daer ac ar fyrder i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gychwyn trafod gyda'r feddygfa sut y mae am reoli'r newid a fydd yn y pen draw yn effeithio ar Feddygfa'r Borth, ei staff, a'i chleifion. Byddai datrysiad gwael, arwynebol i'r sefyllfa yn gallu effeithio yn ddifrifol ar bobl y Borth a'i hymwelwyr yn ogystal â chymunedau ehangach. Dyma gyfle i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda arwain y ffordd a chreu model arloesol ar gyfer darparu gofal sylfaenol mewn lleoliad gwledig. Model sy'n gydweithredol, wedi'i gynllunio'n dda ac sy'n gweithio i bawb."

**Tocio Gwasanaeth Bws 512**

Daeth amserlen bysus newydd i rym ar 30 Ionawr ac mae'r newidiadau i wasanaeth 512 yn destun cryn drafodaeth yn lleol. O dan y drefn newydd, mae bws cynta'r bore yn gadael Ynys-las am 7.55yb, gan fynd i gyfeiriad Penrhyn-coch. Mae gofyn i deithwyr sydd am fynd i Aberystwyth newid bws yng Ngogerddan, gan gyrraedd canol Aberystwyth erbyn 8.47yb sef taith o 53 munud at ei gilydd. Mae'r bws yma ac un ola'r dydd yn mynd ar hyd Gelli Angharad i'r dre, nid i lawr rhiw Pen-glais. Amserau'r bysus eraill o Ynys-las i Aberystwyth yn ystod y dydd bellach yw 9.25yb, 11.25yb, 1.25yp, 3.25yp a 6.25yh. Mae llai o fysus hefyd yn teithio o Aberystwyth i Ynys-las, gan adael y dre am 7.14yb, 8.59yb, 10.59yb, 12.59yp. 14.50yp a 17.39yp yn hytrach na phob awr.

Mae dros 600 o bobl wedi llofnodi deiseb yn cwyno am y newidiadau ac mae Elin Jones, yr Aelod Senedd dros Geredigion, a Ben Lake, yr Aelod Seneddol lleol, ill dau yn gwneud ymholiadau pellach am drefniadau trafnidiaeth cyhoeddus yn yr ardal.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Hugh Hughes sy'n cynrychioli ward Y Borth, Dôl-y-bont a Llandre: "Er yn siomedig rwy'n deall pam fod Mid Wales Travel wedi penderfynu cwtogi'n sylweddol ar wasanaeth bws 512. Rwyf wedi bod mewn trafodaethau gyda Mid Wales Travel; gyda'r Cynghorydd Keith Henson, Aelod Cabinet Cyngor Sir Ceredigion dros y Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon, a gydag eraill. Mae'r Cynghorydd Henson wedi cytuno i ddod i'r Borth yn yr wythnosau nesaf i ganfod drosto'i hun yr heriau sy'n wynebu teithwyr.

"Cyn i'r Cynghorydd Henson ddod i weld y gwasanaeth 512, rwy'n gobeithio cyfarfod â theithwyr i gael eu barn ar yr amserlen newydd ac awgrymiadau ar sut fyddai'r gwasanaeth newydd yn gweddu orau i deithwyr, gan obeithio annog mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael. Credaf fod system trafnidiaeth gyhoeddus ddiogel, ddibynadwy a fforddiadwy yn hollbwysig ar gyfer rheoli dyfodol cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a byddem yn croesawu unrhyw un sydd ag unrhyw awgrymiadau i gysylltu â mi yn uniongyrchol i drafod ymhellach.

"Yn anffodus, nid mater ar gyfer ardal y Borth yn unig yw hyn. Mae diffyg cyllid ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus ar draws canolbarth Cymru yn bwnc y mae Ben Lake ac Elin Jones ill dau wedi'i godi ar ein rhan gyda Llywodraeth Cymru."

**Ffordd Ar Gau**

Bydd ffordd y B4353 dros groesfan reilffordd Ynys-las ar gau rhwng 9yb a 3yp ar ddydd Sul 4 Mawrth oherwydd gwaith cynnal a chadw ar y rheilffordd.

**Dr Aeron Davies**

Estynnwn pob cydymdeimlad i deulu Dr Aeron Davies fu farw yn Florida yn Unol Daleithiau America yn gynharach y mis hwn. Cynhaliwyd ei angladd a dathliad o'i fywyd yn Florida ar ddydd Iau 9 Chwefror gyda'r gwasanaeth yn cael ei ffrydio'n fyw i'r sawl nad oedd yn gallu teithio yno. Yn ymgynghorydd adnabyddus yn Ysbyty Bron-glais am 30 o flynyddoedd, arferai Dr Davies fyw yn y Borth ac roedd yn aelod o Glwb Golff y Borth ac Ynys-las, ac yn gyn gapten.



**R.J Edwards a'i Fab**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
**e-bost:** mynachhandyman@yahoo.com

# Newyddion Hwb Cymunedol Y Borth



Ar 21 a 22 Ionawr, cynhaliwyd arddangosfa arbennig o'r gwaith a grewyd mewn dosbarthiadau celf yn yr Hwb dros y misoedd diwethaf yng nghanolfan gelfyddydol Seren y Môr / Star of the Sea. Os hoffech ymuno ag un o'r grwpiau celf dan arweiniad Martine Ormerod, cysylltwch â martine@borthcommunityhub.co.uk.

Mae manylion yr ystod eang o sesiynau wythnosol rheolaidd a gynhelir ar gyfer teuluoedd babanod, plant, pobl ifanc, rhieni, pensiynwyr ac oedolion eraill i'w cael ar dudalen Facebook yr Hwb. Maen nhw'n cynnwys sesiynau chwarae i fabanod a phlantos, sesiynau tyluno babanod, clwb ieuenctid, teithiau cerdded i rieni newydd, teithiau er lles i bawb a theithiau cerdded er lles. Yn ogystal, cynhelir y sesiynau arbennig isod ym mis Mawrth:

**Cyngor Crydcymalau**
10yb – 12yp, Dydd Gwener 3 Mawrth
Sesiwn galw heibio gyda Sarah Greener o fudiad Versus Arthritis, yn cynnig gwybodaeth a chyngor. Mae'r mudiad hefyd yn awyddus i recriwtio gwirfoddolwyr newydd yn lleol.

**Hyfforddiant TGCh**
1.30-3.30yp, Dydd Gwener 10 a 17 Mawrth
Dwy sesiwn dan arweiniad Cwmpas Digital yn cynnig hyfforddiant syml ar ddefnyddio cyfrifiaduron a dyfeisiau digidol eraill. Mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim ond mae angen cadw lle ymlaen llaw drwy e-bostio lisa@communityhub.co.uk.

Cofiwch hefyd bod 'Gofod Cynnes' yn yr Hwb bob dydd Gwener rhwng 9.30-11.30yb gyda'r Caffi Cymunedol yn dilyn rhwng 11.30yb-1.30yp ac yna mae'r Clwb Crochet ar agor yn ddi-dâl i bawb yn y pnawn.

## Clwb Golff y Borth ac Ynys-las

**Gwobrwyo Golffwyr**



Llongyfarchiadau mawr i Karen Evans a Jean Harrison ar eu llwyddiant yn cystadlu ar y cwrs golff y llynedd. Enillodd Karen y wobr am y nifer uchaf o '*birdies*' dros y tymor (sef un ergyd yn llai na safon y twll) yn ogystal â derbyn Medal Golff Cymru. Dyfarnwyd y wobr am y chwaraewr mwyaf cyson dros gyfres o gystadlaethau dros yr Haf i Jean Harrison.

**Cystadleuaeth Dathlu Diwrnod Santes Dwynwen**
Enillydd y gystadleuaeth 11 twll eleni oedd Jean Harrison gyda 19 pwynt. Yn cipio'r wobr oddi wrth Ruth Morris wrth gyfri nôl oedd hefyd ar 19pwynt.

**Noson Burns**
Cynhaliwyd noson arbennig i ddathlu Noson Burns o dan arweiniad y Capten Dave Blesovsky ac Athole Marshall. Cafwyd gwledd o *Haggis, Tatties a Neeps* a diferyn bach o chwisgi i gyfarch y bardd Rabbie Burns. Mae ein diolch yn fawr i Susan Lund a Dylan Raw Rees a'r criw am baratoi a gweini bwyd mor flasus. I gloi'r noson cafwyd adloniant gan fand newydd lleol 'Misha and the Kings' fu'n chware miwsig adnabyddus ynghyd â chaneuon gwreiddiol. Band arbennig fydd gobeithio yn dod aton ni eto.

**Dydd Gŵyl Dewi**
Cynhelir cinio arbennig yn y clwb ar nos Sadwrn 4 Mawrth i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Bydd tocynnau ar gyfer y digwyddiad ar werth yn fuan.

## O Gymru i'r Gaiman

Dymuniadau gorau i Lleucu Haf a'i merch fach Eleanor sy'n teithio i Batagonia ar 22 Chwefror. Mae Lleucu, merch Haf ap Robert a Joe Mitchell sy'n byw yn y Borth, wedi cael ei phenodi'n athrawes yn Ysgol Gymraeg y Gaiman yn nhalaith Chubut yn nwyrain y wlad. Bydd hi ac Eleanor, sydd newydd ddathlu ei phen blwydd yn 5 oed, yn treulio 10 mis yno.
Wedi mynychu Ysgol Gynradd Rhydypennau ac Ysgolion Cyfun Penweddig a Bro Hyddgen, graddiodd Lleucu o Brifysgol Aberystwyth gyda gradd mewn Eidaleg a Ffrangeg ac enillodd Dystysgrif Addysg i Raddedigion yn 2018. Mae wedi bod yn gweithio'n ddiweddar fel athrawes yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth.






# Er Cof am Des Hayes

*Gyda thristwch mawr y clywsom ychydig cyn y Nadolig am farwolaeth yr Athro Emeritws Des Hayes. Roedd yn adnabyddus i nifer o ddarllenwyr Y Tincer naill ai drwy ei waith yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) Prifysgol Aberystwyth yng Ngogerddan neu ei gymdogion yn y Borth lle bu ef a'r teulu yn byw am bron i hanner cant o flynyddoedd cyn i Des a Nansi symud i Gaerfyrddin tua degawd yn ôl. Cynhaliwyd ei angladd yng Nghapel y Priordy yng Nghaerfyrddin ar 21 Rhagfyr. Rydym yn ddiolchgar i'r teulu am eu caniatâd i ailgyhoeddi yma ran o'u teyrnged iddo.*

Ganwyd Dad ar Orffennaf 27ain, 1931 yn Parkylan, bwthyn bach dwy ystafell nepell o Landdewi Felffri yn fab hynaf i John ac Annie Hayes a chafodd frawd, Fred, saith mlynedd yn ddiweddarach. Gweithiwr ffarm oedd ei Dad ac yn Medi 1932 symudodd y teulu i rentu ffarm fach 10 erw, Penycwm ger Llandysilio, Sir Benfro. Roedd bywyd yn galed a'i dad a'i fam yn gorfod gweithio'n ddiwyd i gynnal y teulu. Yn fachgen roedd disgwyl iddo wneud gwaith o gwmpas y tŷ oedd yn cynnwys pwmpio dŵr o'r ffynnon gan nad oedd cyflenwad dŵr i'r tŷ a mynd i gasglu olew paraffin o siop Jos yn Llandysilio, rhyw filltir i ffwrdd gan nad oedd trydan yn dod i'r tŷ. Mae'n hawdd iawn gweld o ble ddaeth ei ethig gwaith cryf.

Yng ngwanwyn 1943 fe basiodd Dad ei arholiad 11+ olygodd ei fod yn cael mynediad i Ysgol ramadeg Arberth y Medi canlynol. Roedd gan Dad barch mawr i'r Prifathro, Sam Evans. Efe a ranodd y newyddion ysgytwol yn Mehefin 1947 fod ei dad wedi marw yn sydyn – pan oedd Dad ond yn un ar bymtheg oed. Sam Evans perswadiodd ei fam mai aros ym myd addysg a dychwelyd i'r 6ed dosbarth fyddai orau i Dad. Bu'n rhaid i'r teulu bach adael ffarm Penycwm a symud i Landdewi a rhentu dwy ystafell mewn tŷ yn y pentref. Sylweddolodd Sam Evans fod pethau yn anodd ar y teulu ac fe drefnodd fod Dad yn cael cyfrifoldebau gweinyddol yn yr ysgol ac fe gafodd ei dalu am hyn, a chael pryd ysgol am ddim. Mae Dad wastad wedi teimlo dyled fawr i'r gŵr arbennig hwn.

Dad oedd y cyntaf o'i deulu i fynychu addysg uwch ac ar sail ei berfformiad rhagorol yn ei gymwysterau Higher School Certificate; fe gafodd ysgoloriaeth £215 y flwyddyn gan gyngor Sir Benfro wnaeth ganiatàu iddo fynd i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Roedd symud i fyw yn y pentref yn Llanddewi yn golygu fod Dad yn medru ymuno â'r gymdeithas fferwmyr ifanc lle gafodd brofiadau da a ddatblygodd ei fedrau fel areithiwr. Credwch neu beidio, a dim ond yn ddiweddar daethon ni i wybod hyn, ond oedd Dad yn swil iawn. Y profiadau yma o siarad cyhoeddus dynnodd e allan o'i gragen a'i wneud yn gyfathrebwr heb ei ail. Yn y cyfnod hwn fe dyfodd ei gyfeillgarwch gyda Tom Griffiths, Henllan a fyddai eto yn troi'n ffrind gydol oes. Mae Dad wedi siarad yn uchel am y dylanwad gafodd mudiad y ffermwyr ifanc ar ei fywyd.

Cyrhaeddodd Brifysgol Aberystwyth yn Hydref 1949 i gychwyn gradd mewn Agricultural Botany. Pan gyrhaeddodd ei digs ar Trinity Road fe ddaeth ar draws "John Desmond" arall ac o'r funud honno ymlaen fe dyfodd cyfeillgarwch oes. Fe wnaeth Dad fwynhau mas draw ei gyfnod yn Aber fel myfyriwr, bu'n gefnogwr brwd o 'Rag week', y gymdeithas ddadlau ac roedd wrth ei fodd yn cefnogi tim rygbi'r Brifysgol ar gaeau Vicarage ar brynhawniau Mercher. Roedd Dad yn fyfyriwr cydwybodol a medrus ac fe raddiodd gyda gradd dosbarth cyntaf.

**Teithio**

O ganlyniad i'w radd rhagorol derbyniodd ysgoloriaeth ôl-radd gan y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF) ac fe gafodd ei gyfeirio i gwblhau hyfforddiant ymchwil yn y Grassland Research Station yn Hurley ger Maidenhead yn 1952. Prynodd Dad feic modur BSA, 250cc i'w alluogi i deithio'r 200 milltir nôl a mlaen o Sir Benfro ymhob tywydd a chyn ddyddiau traffyrdd – roedd yn dipyn o ymdrech!

Bu'n llwyddiannus wrth ymgeisio am ysgoloriaeth i astudio ar gyfer gradd feistr yn Wisconsin, yr Unol Daleithiau, ac ym Medi 1954 ac ef ond yn 23 oed, aeth ar fordaith i America ar y *Queen Elizabeth* a mwynhau moethusrwydd nas brofodd erioed o'r blaen.

Yn ddi-amheuaeth roedd y flwyddyn a dreuliodd yn America yn un fythgofiadwy. Mae'n debyg fod y profiad cynnar yma o deithio ar draws y byd wedi cynnau ynddo yr awydd i deithio a phrofi diwylliannau gwahanol a ddatblygodd yn ran fawr o'i fywyd proffesiynol a phersonol. Treuliodd ei gyfnod olaf yn America yn teithio hyd a lled y cyfandir gan ymweld â 34 talaith! Gadawodd gyda gradd feistr yn Agronomy yn Awst 1955 a dychwelodd i Gymru ar gyfer pennod nesaf ei fywyd.




**Des Hayes gyda Phennaeth IBERS, yr Athro Iain Donnison)**

**Gweithio yng Ngogerddan**

Dechreuodd Dad ei waith yn y PBS neu'r Fridfa Blanhigion Cenedlaethol yng Ngogerddan, Bow Street yn 1955. Roedd ei waith yn ymwneud â gwaith ymchwil a bridio ceirch - gwaith labordy, gwaith mewn tai gwydr, a gwaith maes. Bu'n defnyddio technegau ystadegol a ddysgodd yn Wisconsin i ddadansoddi treialon tyfu ceirch yn y caeau. D'oedd dim cyfrifiaduron bryd hynny - roedd y cyfrifo i gyd yn 'long hand'. Datblygodd ei ymchwil i gynnwys barlys y gwanwyn a sut i fridio mathau o farlys allai wrthwynebu haint ac afiechydon.

Yn 1961 cafodd ddyrchafiad i fod yn bennaeth adran 'Arable crops' yn gyfrifol am bob agwedd o fridio ac ymchwilio ceirch a barlys. Ymestynodd y cyfrifoldeb ymhellach i gynnwys ffa a Brassicae. Yn 1964 derbyniodd ei PhD yn seiliedig ar dair mlynedd o waith ymchwil ar '*The early generation testing of cereals*'. Dyma benllanw cyfnod dwys o waith ymchwil manwl a disgybledig ac yn dyst i'w allu gwyddonol medrus.

Nod yr adran oedd cynyddu faint o fwyd y gellir ei gynhyrchu ar uned o dir. Dad oedd yn gyfrifol am gynhyrchu mathau newydd o farlys gwanwyn a "Rheidol winter Rye". Mae "Peniarth" yn fath arbennig o geirch a ddatblygwyd gan yr adran a fu ar frig y rhestrau amaethyddol am dros 30 mlynedd. Dyma gyfnod hapus a bodlon yn broffesiynol iddo, yn arwain adran



Ffarwelio â'r Borth yn 2009

lwyddiannus gyda staff cydwybodol ac uchelgeisiol. Roedd y PBS yn dal ei thir gyda'r sefydliadau ymchwil gorau yn y wlad.

Roedd yn sicr yn aelod gwerthfawr o staff y Fridfa ac mae llythyr gan Gyfarwyddwr y PBS yn ei gymeradwyo ar gyfer dyrchafiad i Senior Principle Scientific Officer yn tystio i hynny;

Teithiau'r byd i gasglu samplau o hadau er mwyn eu defnyddio mewn arbrofion bridio nôl yn y Fridfa ac i gynhadleddau rhyngwladol. Byddai Dad wastad yn dod nôl a doli mewn gwisg draddodiadol o bob gwlad a thyfodd y casgliad yn go gloi gyda doliau o Sbaen, Portiwgal, Scandinafia, Yr Iseldiroedd, America, Canada, Dwyrain yr Almaen, Mexico, Arizona, Hwngari ac Israel. Roedd Dad yn hoffi adrodd y stori o'r tro pan oedd ar waith maes yn Twrci ac fe gafodd ei arestio gan filwr tra ei fod yn casglu samplau yn y caeau a chael ei fartsio a gwn i'w gefn i'r pentref lleol. Unwaith sylweddolodd y pentrefwyr mai gwyddonydd amaethyddol a nid ysbiwr oedd Dad fe gafodd groeso brenhinol!

Yn 1977, derbyniodd secondiad 3 mlynedd i'r Cyngor Ymchwil Amaethyddol yn Llundain i fod yn ymgynghorydd arbennig mewn materion amaethyddol - yn benodol bridio planhigion a geneteg. Wedi dwy flynedd o gymudo fe gafodd ei benodi yn Athro Amaethyddiaeth Prifysgol Aberystwyth. Roedd yn gyfrifol am bob agwedd o waith academaidd ac ymchwil yr adran gan gynnwys yr holl ffermydd a'r gorsafoedd maes oedd o dan ofal y Brifysgol - Trefloyne yn Ninbych y Pysgod; Pen-glais, Morfa Mawr, Fron-goch a Peithyll.

Roedd yn gymrawd o'r Royal Society of Biology, Aelod oes y Sioe Amaethyddol Frenhinol, ac yn aelod o gyrff llywodraethu llu o fudiadau. Mynychodd lu o gynhadleddau tramor yn Rhufain, Sweden, Denmark, Pakistan, India, yr Aifft, Syria ac Ethiopia gyda'r nod o wella dulliau cynhyrchu bwyd ar draws y byd. Heb os, "Y lle bu hwn, mae gwell byd".

Parhaodd cysylltiad Dad gyda Phrifysgol Aberystwyth wedi iddo ymddeol a bu'n aelod o gyngor y Prifysgol rhwng 1996 a 2008 ac yn aelod brwd a ffyddlon o Gymdeithas y Cyn Fyfyrwyr, yr OSA, tan yn ddiweddar.

**Y Borth**

I ni fel plant, roedd "Dunstall", ein cartref yn y Borth, yn gyfystyr â'n magwraeth, ac felly ein rhieni. Roedd croeso bob amser i'n ffrindiau, perthnasau pell ac agos, tramorwyr neu unrhyw un â fyddai mewn angen. Cawsom gymaint o hwyl ar y lawnt ac roedd rhaid i bawb gymryd rhan yn y gweithgareddau. Anghyffredin iawn fyddai i unrhyw un ddod mas o'r gemau neu'r rasus oedd Dad wedi eu dyfeisio. Yn ryfedd ddigon, dim ots pa oedran neu pa allu oedd y cystadleuwyr – roedd y canlyniad bob tro yn agos iawn – gyda Dad wedi cynllunio rhyw 'handicap system' effeithiol! Roedd yn ddiddanwr heb ei ail a digon o amser i ni fel plant. Ni roddai unrhyw bwysau addysgiadol arnom, credai'n gryf byddem yn "ffeindio ein lefel" ac am hynny rydym yn ddiolchgar.

Nid segura oedd y nod ar ôl ymddeol. Fe arllwysodd e a mam eu hegni mewn i waith cymdeithasol gan gynnwys Cymdeithas Y Borth, Pryd ar Glyd a hyd yn oed potshan ychydig gyda golff! Fe wnaeth y ddau fwynhau gwyliau tramor gan gynnwys teithiau i'r Aifft, India, Seland Newydd a America.

Roedd y Capel yn y Borth yn golygu llawer iddo a daeth yn Ymddiriedolwr Coleg yr Annibynnwyr gan bwysleisio ymarferoldeb penderfyniadau yn hytrach na delfrydau. Gyda'r ddiweddar Teleri Bevan ac aelodau ei theulu bu'n flaengar iawn yn cydnabod myfyrwyr Amaethyddiaeth gorau Cymru yn flynyddol wrth feirniadu Ysgoloriaeth Goffa Dr Richard Phillips.

Parhaodd gyda'i ddiddordeb yn y maes gwyddonol wrth ddarlithio a siarad mewn ciniawau am ei brif ddiddordeb - sef Geneteg a'r cwestiwn mawr - "Pwy ydym ni?" Mae'n siwr bod sawl un ohonoch wedi profi sgwrs neu drafodaeth ddwys ar amrywiaeth o themâu moesegol ac athronyddol ac wedi synnu ar ei ddeallusrwydd o themâu dyrys. Roedd wrth ei fodd yn cael y math hwn o drafodaeth egwyddorol.

Un o'r llinynnau aur drwy'r deyrnged yw'r cyfeiriad at ffrindiau oes. Pan oedd Dad yn gwneud ffrind da, roeddent yn aros yn ffrindiau da hyd at y diwedd. Roedd yn loes calon iddo yn y blynyddoedd diweddar ei fod wedi colli cymaint o'i ffrindiau agosaf, roedd pob colled yn ergyd ysgytwol iddo. Mae'r ffaith fod Dad wedi bod yn was priodas i wyth cwpwl yn dweud y cyfan amdano. 'Best man' ie, ond hefyd the "Best of men"

## Cyngor Cymuned **Geneur Glyn**

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:** cyngorcymuned geneurglyncommunitycouncil. wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 23.01.2023 yn Ysgoldy Bethlehem, Derbyniwyd 2 ymddiheuriad.
5 aelod o'r cyhoedd yn presennol.
(Os dymunwch fod yn bresennol mewn unrhyw cyfarfod, cysylltwch a'r Clerc).

**Trafodwyd**:

- Croesawyd Pam Griffiths 'Tennis Wales' i'r cyfarfod i trafod syniadau ar gyfer y cyrtiau tenis.
- Penderfynwyd edrych am dyfynbris I atgyweiro'r safle bws a gosod hysbysfwrdd newydd yn Dolybont.

**Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Cytunwyd talu: Costau Etholiadau 2022 - £170;
R. Morgan - £71.68 - Batris a baner Iwcràin;
Costau Banc 13/08/22 - 12/12/22- £23.60;
Cadarnhawyd cyllideb a'r praesept am y flwyddyn 2023/24.

- Parc a'r Cyrtiau Tenis: Gwaith yn parhau I datblygu'r parc. Cais am rhodd wedi mynd at Cronfa Eleri, disgwyl ymateb cyn mynd ati i archebu offer chwarae newydd. Trafodaethau gyda Cyngor Sir Ceredigion yn parhau yng a Les yr ardal.
- Adroddiad gan y Cyng Hugh Hughes: Pryder yng amserlen bws newydd yr ardal, dyfodol Meddygfa y Borth ac hefyd Rali yn yr ardal.
- Cyfarfod nesaf: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 27 Chwefror 2023 yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00yh.

Pauline Lucas:
clercgeneurglyn@yahoo.com

BRIDGE HOUSE CLEARANCE

Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim

f 07792457816 / 01974 261758

# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**

*Chwefror*

**19** 2.30 Wyn Rh Morris
**26** 10.30 Sandra Morris Jones

*Mawrth*

**5** 2.30 Oedfa gymun Peter Thomas
**12** 10.30 Peter Thomas
**19** 2.30 Judith Morris ym Methel
**26** 10.30 Hywel Davies

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau I Owain Jones a Caryl Daker ar enedigaeth Ceulan Llewelyn Daker Jones ar Ionawr 16.

**Teyrnged i'n Cadeirydd, Kevin 'Bones' Jenkins, gan Glwb Pêl-droed Penrhyn-coch**

Ar ddiwrnod olaf mis Ionawr, daeth tyrfa deilwng ynghyd i'r amlosgfa yn Aberystwyth i ddathlu bywyd Richard Kevin Jenkins, neu 'Bones' fel oedd pawb yn ei adnabod. Yn ddios, dyma'r angladd fwyaf i'r rhan fwyaf ohonom fod ynddi erioed – o bob oed, ac o bob rhan o Gymru. Hyn i gyd yn deyrnged i'w boblogrwydd.

Mistar Penrhyn-coch, a'i gariad tuag at bêl-droed yn chwedlonol. Dechreuodd ei yrfa gyda thîm Pen-y-bont, Penparcau, yn chwarae ar brynhawniau Sul, cyn arwyddo i chwarae i ail dîm Aberystwyth pan oedd yn dair ar ddeg. Bu'n chwarae i nifer o dimau gwahanol gan gynnwys Goginan, Ffostrasol a Bont, gan




**Buddugoliaeth i 2il Dîm Penrhyn-coch ar Chwefror 4' yn erbyn y Trallwm. Teyrnged i'r diweddar Bones, cyn reolwr y tîm, wrth i Dylan Jenkins gamu i'w grys ar gyfer y gêm!**

chwarae dros 1250 o gemau yn ei yrfa. Roedd hefyd yn weithgar gyda chlwb Pêl droed Aberystwyth yn hyfforddi gyda'r Academi ac yn chwarae rhan flaenllaw gyda thîm y merched. Er ei lwyddiant gyda'r timau hyn i gyd, ym Mhenrhyn-coch oedd ei galon. Ymhell dros 6 troedfedd,







golgeidwad dewr a diofn, er ei fod yn cyfaddef ei hun iddo gael trafferth yn cicio pél yn bell! Bones yw'r unig un i fod wedi dal bob ról o fewn y clwb – rheolwr y tîm cyntaf, yr ail dîm a'r trydydd tîm, rheolwr y tîm ieuenctid, tîm y merched heb sôn am fod yn drysorydd y clwb, aelod o'r pwyllgor ac yn gadeirydd. I Bones mae'r diolch am sefydlu twrnament ieuenctid blynyddol Penrhyn-coch. Tipyn o gamp i wasgu'r cyfan i mewn i'w yrfa!

Tu hwnt i bêl-droed, dyn teuluol oedd Bones. Cyfarfu á Debbie pan oedd yn grwtyn ysgol a bu'r ddau gyda'i gilydd gydol ei oes – digon o dynnu coes rhyngddynt ond dealltwriaeth a chyfeillgarwch dwfn yn eu plethu ynghyd dros y blynyddoedd.

Y plant ddaeth wedyn –roedd Bones yn gefnogol tu hwnt o dalentau'r ddau – Leigh yn chwarae i safon uchel dros Benrhyn-coch a thîm cyntaf Aberystwyth, ac Amy yn chware i dîm merched Aberystwyth ac yn derbyn cap Cymru dan 17. Y ddau yn chwaraewyr pêl droed campus, gan ddilyn ôl troed eu tad... a'u mam! Roedd y teulu yn bwysig iddo a chanddo uned deuluol glos yn Debbie, Leigh, Amy a'u teuluoedd yn ogystal â'i wyrion Zac a Riley.

Bu hefyd yn gweithio i'r Comisiwn Coedwigaeth fel swyddog cyllid ac uwch swyddog cyllid. Dyn amryddawn oedd Bones. Un o'r cymeriadau prin ydoedd, a neb â gair drwg amdano.

Cymro i'r carn, yn cefnogi'r Blaid ac ymgyrch 'Yes Cymru'. Erys 'Yma o Hyd' wrth adael yr amlosgfa yn hir yn y cof. Bydd colled fawr ar ei ôl, i'w ffrindiau, i'r clwb, i bêl droed, ac i Debbie, Leigh, Amy a'u teuluoedd.

Ie, boi da oedd Bones, un o'r goreuon. Hynaws, bonheddig a hoffus. Cysga'n dawel Kev.

**Cymdeithas y Penrhyn**

Adeilad Arloesi Aber yng Ngogerddan oedd ein man ymgynnull ar y 18fed o Ionawr pan fu Steve Thomas yn rhoi Cip ar y Coleg i ni. Steve yw Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus Prifysgol Aberystwyth. Soniodd am y ddwy agwedd sydd i waith y Brifysgol, sef dysgu myfyrwyr a gwneud gwaith ymchwil. Mae'r ymchwil hwnnw'n gallu cael effaith fyd-eang, er enghraifft, drwy fridio planhigion sy'n cadw carbon yn y tir er mwyn helpu'r amgylchedd. Yn hynny o beth, mae'r brifysgol yn ceisio adeiladu ar gryfderau'r Fridfa Blanhigion oedd ar safle Gogerddan gynt.

Yn ogystal a'r ymchwil blaengar, mae gan Arloesi Aber gyfleusterau o'r radd flaenaf i ddatblygu'r egin syniadau sy'n deillio ohono a'u troi'n gwmnïau gweithredol. Cawsom daith o amgylch y labordai i weld y cyfleusterau sydd yno ar gyfer prosesu, dadansoddi a datblygu bwydydd o bob math. Mae cwmnïau o bell ac agos yn manteisio ar arbenigedd academaidd y staff



a'r cyfleusterau gwych sydd ar gael. Y teimlad oedd y gallai bwydydd fydd yn ymddangos yn yr archfarchnadoedd yn y blynyddoedd sydd i ddod fod wedi cael eu datblygu yma ar gyrion Penrhyn-coch. Diolch i Steve Thomas a'r Brifysgol am noson hynod o ddiddorol.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Lynwen ac Ifor a'r merched, Garej Tŷ Mawr, ar farwolaeth modryb i Ifor -Mrs Beti Watkin a oedd yng Nghartref Cysgod y Coed, Llanilar.

**Pêl-droed Penrhyn-coch**
**Tim 1af**
**Cynghrair**
*Ionawr*
28 Penrhyn-coch 2
Hotspur Caergybi 1

*Chwefror*
**Cwpan canolbarth Cymru**
1 Llandrindod 1 Penrhyn-coch 0

**Cynghrair**
4 Bwcle 2 Penrhyn-coch 1
10 Rhuthun 2 Penrhyn-coch 1

**Eilyddion**
*Chwefror*
4 Penrhyn-coch 2 Y Trallwm 1
10 Rhaeadr 1 Penrhyn-coch 1



## Max Evans

Gyda thristwch daeth y newyddion am farwolaeth Max Jenkins, Ger-y-llan, ar y dydd olaf yn Ionawr. Yn wyneb cyfarwydd yn y pentref bydd colled fawr ar ei ôl. Cynhelir yr angladd brynhawn Gwener 17 Chwefror.

## Dolau

Byddwn yn adeiladu llwybr aml-ddefnydd yn gyfochrog â'r A487 i gysylltu cymuned Dole gyda Ysgol Gynradd Rhydypennau a Bow Street rhwng misoedd Chwefror a Mehefin 2023.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud heb fod angen cau unrhyw ffordd, er hynny bydd goleuadau traffig dwy-ffordd yn cael eu defnyddio am 24 awr y dydd yn ystod y cyfnod adeiladu, a bydd angen defnyddio goleuadau traffig tair-ffordd yn achlysurol wrth weithio'n agos at ymyl y ffordd.

Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i symud yr holl reolaeth traffig dros dro o'r rhwydwaith yn ystod penwythnos y Pasg a chyfnodau embargo eraill.

Misoedd Chwefror i Fehefin 2023 - A487 yn agored i'r holl draffig dan reolaeth traffig dros dro (goleuadau traffig).

Newyddion da ond piti na allen nhw fod wedi gwneud y gwaith yr un pryd a gosod y bibell dŵr.


*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*
*10.00-5.00*
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Laurence Kelly
**AR AGOR**
**Llun – Sadwrn**
**7 y bore – 9 yr hwyr**
**Sul**
**7 y bore – 7 yr hwyr**
**Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig**
**01970 828312**


## Colofn **Ben Lake AS**



Dwi'n siŵr ein bod ni i gyd yn awchu i weld y gwanwyn yn cyrraedd – y diwrnod yn ymestyn, y tywydd yn gwella a byd natur yn deffro unwaith eto. Ond er taw misoedd y gwanwyn a'r haf sydd o'n blaenau, byddai'n ffôl i ni feddwl bod caledi'r gaeaf a'r argyfwng costau byw yn mynd i ddiflannu'n llwyr.

Bydd pobl sy'n byw yng Ngheredigion yn gwybod yn well na neb bod yr argyfwng costau byw yn cael effaith ddifrifol ar gymunedau yng nghefn gwlad. Ry'n ni'n gwybod ar gyfartaledd bod cyflog pobl mewn ardaloedd gwledig yn is na'r rheiny yn y trefi a'r dinasoedd; mae cyflwr y stoc tai yng Ngheredigion a'r diffyg insiwleiddio digonol hefyd yn golygu ei bod hi'n costio mwy i gadw'n tai yn gynnes; a gyda'r toriadau difrifol i wasanaethau bysys ar draws y sir, mae mwy a mwy o bobl yn dibynnu ar ddefnyddio car i gyrraedd apwyntiadau meddygol ac i wneud eu siopa. Ar ben hyn oll, mae'r banciau'n cau ac mae ein gwasanaethau oedd unwaith yn lleol yn cael eu symud ymhellach ac ymhellach i ffwrdd sy'n golygu bod rhaid gwario mwy o arian i'w cyrraedd.

Byddai'n hawdd digalonni gyda hyn oll, ond mae yna oleuni ac atebion i'w cael i rai o'r heriau hyn, cyd â'n bod ni'n canolbwyntio ar weithredu'n lleol, ac yn hynny o beth rwy'n grediniol bod gan ynni cymunedol ran i'w chwarae yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw presennol. Mae prosiectau ynni cymunedol yn sicrhau bod gan rhanddeiliaid lleol y cyfle i fod yn rhan o'u dyfodol ynni eu hunain drwy berchnogaeth leol. Mae ynni cymunedol yn dod â phob math o fuddion i'r gymuned leol, yn cynnwys:

- rhoi hwb i'r economi leol, creu swyddi a denu buddsoddiad
- lleihau biliau ynni ac arbed arian i'r bobl sy'n ymwneud â'r prosiect ynni cymunedol: aelwydydd a busnesau fel ei gilydd
- creu cysylltiad rhwng y gymuned a'u prosiect ynni adnewyddadwy, fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso ac nid yn cael eu hecsbloetio
- darparu incwm i ariannu mwy o brosiectau lleol, ysgogi'r gymuned a gwireddu eu huchelgeisiau
- ysbrydoli'r gymuned i gydweithio a datrys materion lleol eraill
- cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gan ddangos i bawb fod newid yn bosib

Er bod ambell enghraifft lwyddiannus i'w gweld ar draws Cymru yn cynnwys Hydro Ogwen yn Nyffryn Ogwen, o'i gymharu â gwledydd fel yr Almaen lle mae dros 1,000 o gwmniau ynni yn bodoli, mae gwledydd Prydain ymhell ar ei hôl hi, ac mae hynny'n rhannol oherwydd rheolau presennol y farchnad ynni a rheolau trwyddedu. Dyna pam fy mod yn cefnogi ymdrechion trawsbleidiol yn San Steffan i gyflwyno deddf newydd fyddai'n sefydlu'r Hawl i Gyflenwad Ynni Lleol. Byddai'r Mesur Trydan Lleol yn rhoi dyletswydd statudol ar reoleiddiwr y farchnad ynni, Ofgem, i sefydlu rheolau marchnad newydd a fyddai'n sicrhau bod y costau sydd ynghlwm â gwerthu ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol yn uniongyrchol i bobl leol yn gymesur â maint y busnes.


Gyda dros 300 o Aelodau Seneddol o bob plaid yn cefnogi'r Mesur Trydan Lleol, rwy'n ffyddiog y caiff ei basio ac y gallwn ni ddisgwyl gweld cynydd sylweddol yn nifer y prosiectau ynni cymunedol yn y dyfodol agos.

Gwyn Jenkins. *Cymru Ddoe Mewn Lliw a Llun*. Y Lolfa 144t. £19.99

Casgliad o luniau o ganol y 19eg ganrif hyd at ganol yr 20fed ganrif sydd yn y gyfrol hynod ddiddorol hon. Yr hanesydd Gwyn Jenkins o Dal-y-bont sydd wedi rhoi'r casgliad at ei gilydd ac mae ganddo sylwadau difyr yn rhoi cefndir i bob llun. Lluniau du a gwyn oedd y lluniau'n wreiddiol ond mae'r awdur gyda chymorth y dylunydd Robin Huw Pritchard a phroses cyfrifiadurol wedi trawsnewid y lluniau i rai lliw. Roedd yr arfer hwn yn boblogaidd iawn gan argraffwyr cardiau post ar gychwyn y ganrif ddiwethaf er mwyn gwneud y golygfeydd yn fwy atyniadol ac roedden nhw'n cyflogi arlunwyr i ychwanegu'r lliwiau. Yna datblygwyd y broses 'chrome' ac yn ddiweddarach defnyddiodd John Hind y broses o argraffu cardiau mewn lliw llachar ar gyfer gwersylloedd Billy Butlin er mwyn pwysleisio'r hwyl oedd y 'campers' yn ei fwynhau. Mae'n rhyfedd sut mae'r ymennydd yn ymateb yn ffafriol i liw ac mae'r gyfrol hon yn profi hynny ac yn dangos fod lliw yn rhoi bywyd newydd i'r ddelwedd.

Mae 122 o luniau yn y gyfrol ac mae gan pob un ei stori. Llun a dynnwyd o ferched yn godro mewn cae tua 1900 a ddewiswyd ar gyfer y clawr a gellid tybio mai hawdd fyddai dewis unrhyw liw i'r gwartheg. Dim o gwbl, oherwydd roedd rhaid cael lliw y brîd iawn rhag gwneud y camgymeriad a wnaeth cynhyrchydd y ffilm O.M. rhai blynyddoedd yn ôl pan ddewiswyd Charolais i'w godro pan nad oedd y brîd yn bod yng nghyfnod O.M. Mae'r camgymeriad sylfaenol hwnnw yn dangos faint o ofal sydd ei angen wrth ddewis ac ychwanegu'r lliwiau ac mae'n amlwg fod Gwyn Jenkins yn adnabod ei wartheg!

Mae'n anodd dewis hoff lun o'r cant a mwy sydd yn y casgliad




ond y tri sy'n dod i'r brig i mi yw llun o W Morris Jones o flaen ei siop 'Home and Colonial Stores' yn Aberaeron a dynnwyd yn 1911, llun o barti stryd yn Nhreherbert y Rhondda i ddathlu Festival of Britain a dynnwyd yn 1951 a llun o Cynan a William Morris yn cael pas mewn Zephyr melyn newydd sbon yn Eisteddfod Genedlaethol y Drenewydd yn 1964. Llun y siop yn Aberaeron oherwydd y manylder a'r camp o ddethol y lliwiau ar gyfer yr elfennau amrywiol, llun y parti am bod y lliwiau yn ychwanegu at y teimlad o hwyl mae'r plant a'u rhieni yn ei gael a'r un olaf oherwydd y gwrthgyferbyniad hyfryd rhwng gwisgoedd traddodiadol yr orsedd a'r car newydd modern sgleiniog. Pa un fyddech chi'n ei ddewis tybed?

Yn bersonol, mi faswn i wedi hoffi gweld y gwreiddiol hefyd er mwyn cymharu ond byddai hynny wedi lleihau y nifer o luniau yn y gyfrol a trueni fuasai hynny ac mae'n bosibl wrth gwrs i weld y gwreiddiol yn archif lluniau Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Pan ddangosais y gyfrol i un o fy wyrion sy'n bymtheg oed ei ymateb ef oedd bod y llyfr yn 'cŵl' taid. Nid yw 'cŵl' yn un o'r geiriau hynny mae hynafgwr fel fi yn eu defnyddio ond mi wn yn iawn beth roedd yn ei olygu a dwi'n cytuno, ydi, mae'r llyfr yn cŵl. Mae'n costio £19.99 ac yn werth pob ceiniog oherwydd mi gewch sawl awr bleserus yn bodio trwy'r tudalennau yn rhyfeddu at y lliwiau, y lleoliadau a'r cymeriadau.

**Gareth William Jones**

D. Geraint Lewis - *Geiriadur y Gair,* Cyhoeddiadau'r Gair 2022, 172t., £9.99

Rhaid fod yna beiriant cudd yn llechu yng nghartref Geraint Lewis, Nantyrefail yn Llangwyryfon cyn ei fod yn llwyddo i droi allan eiriaduron mor swmpus sy'n gaffaeliad i lawer. Yn y flwyddyn 2021 ymddangosodd y gyfrol hon, *Geiriadur y Gair* a diolch amdani. Fel y gŵyr y cyfarwydd byddaf yn cynnal aml i Oedfa ar y Sul ac mae cael adnodd fel yma wrth fy mhenelin tra yn paratoi yn amhrisiadwy. Gynt, byddwn yn dibynnu i raddau helaeth ar gyfrolau Saesneg a'u cyfieithu gan nad yw'r trysor *Geiriadur Charles* yn fy meddiant. Cawn wybodaeth am darddiad teitlau rhai cyfrolau enwog yn y Gymraeg fel *Dail Pren* Waldo Williams o Lyfr y Datguddiad. ('A'r ddwy lan yr afon yr oedd pren bywyd, ac yr oedd dail y pren er iachâd y cenhedloedd') ac *O Tyn y Gorchudd* Angharad Price o Lyfr Exodus. ('Pan ddaeth Moses i lawr o Fynydd Sinai gyda dwy lech y dystiolaeth ni wyddai fod croen ei wyneb yn disgleirio ar ôl iddo siarad â Duw – pan fyddai'n mynd o flaen yr Arglwydd i siarad ag ef byddai'n tynnu'r gorchudd nes iddo ddod allan'). Hefyd, o gofio cefndir yr awdur, Angharad Price a chynnwys y gyfrol daw emyn mawr Hugh Jones Maesglasau i'r brig.

'O tyn, – y gorchudd yn y mynydd hyn…

Wrth reswm, cawn berlau yn Llyfr y Diarhebion. Rhai o'm hoff ddywediadau sy'n siarad cyfrolau yw:

'Dyn dau-ddyblyg ei feddwl sy'n anwastad yn ei holl ffyrdd'.

Mor wir ac yn wers inni gyd, ac 'Mae enw da yn well na chyfoeth mawr a charedigrwydd yn well nag arian ac aur'.


Rhaid nad oedd awdur Llyfr y Diarhebion yn or-hoff o ferched fel y tystia'r adnod hon:

'Mae gwraig gecrus yr un fath a diwrnod mae hi'n glawio'n ddi-stop. Mae rhoi taw fel ceisio stopio'r gwynt rhag chwythu neu ddal olew yn y llaw'.

Mae'n gwella tua diwedd y llyfr:

'Gwraig sy'n parchu'r Arglwydd sydd yn haeddu cael ei chanmol. Rhowch glod iddi am beth mae wedi gyflawni, a boed i arweinwyr y ddinas ei chanmol am ei gwaith'.

Byddaf bob amser yn edmygu person sy'n medru dyfynnu ymadroddion Beiblaidd ac o ganlyniad yn cyfoethogi sgwrs. Ar adegau byddwn yn sôn am gefndir person drwy ddweud iddo fod yn ffyddlon i'w wreiddiau neu i'r graig y'i naddwyd ohoni. Dyma'r gyntaf o Eseia 51:




'Edrychwch ar y graig y'ch noddwyd ohoni ac ar y chwarel lle'ch cloddiwyd'.

Gwelwn enghreifftiau addas hefyd sy'n berthnasol iawn i'r dyddiau dreng yma a brofwn ar hyn o bryd: Daw'r adnod o lythyr cyntaf Timotheus Pennod 6 ac adnod 10.

'Gwraidd pob math o ddrwg yw cariad at arian'.

Daw ambell i ddyfyniad a gwên i'r wyneb ac mae toreth ohonynt yn Llyfr y Diarhebion, beth am hon?

'Fel modrwy aur yn nhrwyn hwch felly mae gwraig brydferth heb synnwyr.'

I bawb a fu a sydd yn Ysgol Tregaron (Ysgol Henry Richard erbyn hyn) cofiwn am yr arwyddair 'Mewn llafur mae elw'. Oes mae tarddiad Beiblaidd i'r arwyddair hwn hefyd ac am emyn mawr y Cyn-brifathro D. Lloyd Jenkins sy'n cloi fel hyn ac yn pwysleisio neges yr arwyddair.

'Dduw holl bresennol, rhown ein cân
Yn offrwm gwiw ar d'allor lân
A boed holl elw'n llafur ni
Yn gymeradwy gennyt Ti'.

Anogaf unrhyw un i brynu'r gyfrol werthfawr a defnyddiol hon. Gall osgoi llawer o grafu pen a phori wrth chwilio am ddyfyniad Beiblaidd addas. Diolch i Geraint Lewis unwaith eto am ei gymwynas fawr.

**Beti Griffiths**

**Atgynhyrchwyd o'r Ddolen gyda'u caniatâd hwy ac awdur yr adolygiad.**

John Medwyn Jones, Aled Jôb *Y Sgowsar: hanes bywyd John Medwyn Jones*. Yr awdur, [2023]. 199t. £7.99

Mae yna nifer o unigolion fagwyd yn y gymuned Gymreig yn Lerpwl eisoes wedi cyhoeddi eu hunangofiannau – nifer a chysylltiadau â Cheredigion – e.e. Eirwen Gwynn, Hywel Heulyn. Y diweddaraf yw'r gyfrol fach hon er mai yn ddiweddar y symudodd y gwrthrych i Geredigion a hynny am fod ganddo deulu yn yr ardal. Mae'n frawd i Emily – gweddw Trevor Lloyd Jones ac yn ewythr i Delyth ac Aled.

Ganwyd a magwyd John Medwyn Jones yn Lerpwl; ar ôl byw yno hanner ei fywyd symudodd i'r cartref teuluol yn Llanfihangel Glyn Myfyr, ger Cerrigydrudion. Ers 2020, ac yntau yn 90, mae yn byw yn Bryn Eglur, Llanfarian.

Yn y gyfrol – ysgrifennwyd gyda'r awdur cysgodol Aled Jôb clywn am ei fagwraeth yn Gymro Cymraeg yn Lerpwl, fel yr aeth o a'i frawd yn efaciwis i Maghull ac fel y symudodd nôl i Gymru. Yn ei fywyd gwaith yn Lerpwl, mi ddilynodd John lwybr wedi ei throedio gan nifer fawr o Gymry yn y ddinas o'i flaen wrth fynd i'r byd adeiladu, gan ddringo i fod yn Clerk of Works ar sawl prosiect pwysig yno.

Dywedodd John ei fod wastad wedi arddel bod yn Sgowsar balch gan fod y ddinas a'i phobol wedi cael cymaint o ddylanwad arno dros y blynyddoedd.

"Wedyn, roedd dewis y teitl *Y Sgowsar* yn ddewis naturiol ar y llyfr mewn ffordd"! meddai. "Cofiwch, dwi wastad wedi arddel bod yn Gymro ac yn siaradwr Cymraeg hefyd a bod yr un mor falch am hynny yr un pryd. Felly dwi wedi meddwl amdana fy hun erioed- fel Sgowsar ac fel Cymro gyda'i gilydd."

Aled Gwyn Jôb o Ynys Môn ydi awdur cysgodol(ghostwriter) "Y Sgowsar"a dreuliodd rhai wythnosau yng nghylch Aberystwyth cyn y Nadolig yn holi John am ei atgofion.


"Un o'r pethau braf am fod yn awdur cysgodol ydi'r ffaith eich bod yn dod i adnabod y bobol yr ydych chi'n sgwennu amdanyn nhw yn dda, ac yn sicr dwi wedi mwynhau dod i nabod John Medwyn dros y cyfnod diwethaf hyn, gan ei fod yn dipyn o gymeriad" meddai Aled, sy'n byw yn Llangefni.

"Mae cof John yn anhygoel o feddwl ei fod yn 90, ac mae o'n llawn diddordeb byw am y byd a'i bethau o hyd chwarae teg iddo. Ac mae hiwmor y Sgowsar a'u ffordd nhw o ddeud hi'n blaen am bethau ynddo yr un mor gryf o hyd!".

Yn ystod y lawnsiad canodd John, sy'n denor, yr emyn "Cof am y cyfiawn Iesu."

Ac ar ddiwedd y cyfarfod, fel syrpreis i John, ac yntau wedi bod yn gefnogwr Lerpwl ar hyd ei oes, trefnwyd canu anthem enwog y cochion sef: "You'll never walk alone".

**Copïau ar gael unai gan yr awdur 01970- 591585 neu gan Aled Gwyn Jôb 07818 068 205 aled.job@btopenworld.com. Dylai fod ar gael yn y siopau llyfrau y dyddiau nesaf.**




## Cylch Cinio Aberystwyth

Yng nghyfarfod mis Chwefror o'r Cylch Cinio a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Richmond fe gytunodd yr aelodau yn unfrydol i gefnogi cynnig Dewi Hughes i gyfrannu £500. tuag at gronfa argyfwng y daeargryn yn Nhwrci a Syria.

Mae'r Cylch Cinio yn noddi nifer o achosion da yn ôl yr angen. Yn ystod yr Hydref cyfrannwyd arian i gefnogi arhosiad y ffoaduriaid o'r Wcráin yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog ac mae'r Cylch yn flynyddol yn cefnogi pum papur-bro yn y dalgylch

Elin Mabbutt, Llanbadarn Fawr, oedd ein siaradwraig wâdd y mis hwn ac wrth ei chyflwyno fe wnaeth John Williams y Cadeirydd gyfeirio ati fel un o ferched mwyaf gweithgar, prysur a brwd Aberystwyth. Merch fferm o Lanwrtyd yw Elin ac fe gododd y llen ar ei magwraeth yn y dref hynafol honno ym Mhowys lle cafodd ei haddysg yn yr uned Gymraeg yn yr ysgol gynradd . Gan nad oes ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mhowys fe wnaeth ei rhieni ei hanfon i Ysgol Maes yr Yrfa, Cefneithin yn Sir Gâr, penderfyniad dewr a olygodd gryn aberth yn ariannol ac amser a ffordd o fyw i'r teulu. Fe olygai hyn deithio yn agos at 80 millltir y dydd a hynny heb unrhyw gymorth na chefnogaeth gan y Cyngor Sir. Fe dalodd ar ei ganfed yn y pen draw ac roedd yn fawr ei chlod am ansawdd yr addysg a dderbyniodd yno yng nghwm Gwendraeth lle gwnaeth nifer fawr o ffrindiau da, ac wrth gwrs mae ei Chymraeg yn rhugl ac yn loyw.

Does ryfedd ei bod hi o natur weithgar gan fod ei hanes mewn gyrfaoedd gwahanol yn adlewyrchu hynny. Aeth i Brifysgol Caerdydd i astudio y Gyfraith a Gwleidyddiaeth a chafodd ei hethol yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr. Derbyniodd swydd i redeg canolfan gynadleddau yn Llundain cyn dychwelyd i Gaerdydd i weithio ym maes arlwyo yn Stadiwm y Principality ac yn yr Amgueddfa a Sain Ffagan. Derbyniodd ei phriod brif swydd arlwyo yn y Brifysgol yn Aberystwyth ac erbyn hyn mae'r ddau yn gweithio yn y Coleg ac wedi ymgartrefu yn Llanbadarn Fawr. Mae ganddynt dri o blant sy'n llwyddiannus iawn ym maes perfformio ac maen nhw'n enwau cyfarwydd ar lwyfannau eisteddfodau a chyngherddau yr ardal.

Talwyd y diolchiadau gan Y Cynghorydd Gareth Davies Llanbadarn Fawr a chyfeiriodd at Elin Mabbutt fel person gwerthfawr iawn yn y gymuned gan nodi yn arbennig mai hi sydd wedi arwain yr ymgyrch i geisio diogelu cae chwaraeon yn Waunfawr rhag datblygiad tai.

Enillydd y raffl oedd Dicky Wyn Davies, Penrhyn-coch.

Mae yna edrych ymlaen eiddgar ar gyfer Pared Gŵyl Ddewi yn Aberystwyth sydd yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn Mawrth 4ydd ac mae'r Cylch Cinio yn cydweithio gyda Phwyllgor y Pared gyda sawl agwedd o'r trefniadau.

Byddwn yn cyfarfod nesaf ar nos Wener Mawrth 10fed yng Nghlwb Pel-droed Penrhyn-coch a dosbarthwyd nifer o dasgiau eisteddfodol ar gyfer y noson. Dr Hywel Griffiths fydd yn ymuno â ni ac yn beirniadu'r cynnyrch.

Mae'r drws ar agor i aelodau newydd. Cysyllter â'r Ysgrifennydd huw_williams1@btinternet.com



**Yn y llun mae John Williams, Cadeirydd; Dicky Wyn Davies, Trysorydd; Elin Mabbutt; Y Cynghorydd Gareth Davies, Llanbadarn Fawr; Dewi Hughes a Wynne Melville Jones**

# LLE MAE NHW NAWR?

**Plant Teulu George – Tomos, Emyr, Mererid a Heledd.**

Daeth y teulu George i fyw i Bow Street ym mis Awst, 1989 pan gafodd Arwel swydd fel pennaeth Penweddig. Dim ond tri o blant oedd yn y teulu bryd hynny ond buan iawn daeth Heledd i ymuno â'r efeilliaid Tomos ac Emyr a Mererid.

Erbyn hyn mae pob un ohonynt wedi symud i ffwrdd i fyw, yn wir maent yn byw mewn pedair gwlad wahanol.



Tomos, Lila ac Emyr



Mererid a Heledd

**Tomos**
Wedi iddo raddio mewn peirianneg mecanyddol ym mhrifysgol Caerdydd cafodd Tomos swydd gyda Jaguar Land Rover yng nghyffiniau Warwick. Roedd yn gweithio fel peiriannydd yn dylunio ceir diesel yn y cychwyn, ac yn teithio'r byd yn eu profi mewn pob math o hinsawdd – oerfel gogledd Sweden neu wres tanbaid Death Valley yn yr UDA ayb. Mae'n dal i weithio i JLR ond mae wedi symud ymlaen i geir trydan a chyda rôl fel rheolwr. Mae'n byw gyda'i bartner Beth, y ci, a nifer o ieir, ym mhentref bach Ettington y tu fas i Stratford.

**Emyr**
Aeth ei efaill, Emyr i astudio cyfraith Eingl Ffrengig ym mhrifysgol King's yn Llundain a'r Sorbonne ym Mharis. Cafodd swydd gydag Ofqual, corff sy'n rheoleiddio cymwysterau ac arholiadau yn Lloegr. Yna, pan grewyd corff tebyg yma, sef Cymwysterau Cymru, bachodd ar y cyfle i ddod yn ôl i Gymru, fel Cyfarwyddwr Polisi yno. Mae ef a'i wraig Sarah yn byw yng Nghaerdydd gyda'u plant Cadi a Gwydion.

**Mererid**
Astudio Siapanaeg ym mhrifysgol Leeds wnaeth Mererid ar ôl gadael yr ysgol, a threuliodd flwyddyn ddiddorol yn Siapan. Wrth gymryd amser i benderfynu beth i wneud nesa cymrodd y cyfle i dreulio 3 mis yn Bordeaux yn Ffrainc, dan gynllun Leonardo (un o gynlluniau Ewrop ar y pryd). Bu'n gwella ei Ffrangeg a gweithio mewn swyddfa yn y Brifysgol. Tair mlynedd ar ddeg yn ddiweddarach mae hi'n dal yn Bordeaux yn gweithio i gwmni ymchil marchnad, yn rheoli prosiectau siopa cudd rhyngwladol. Mae'n byw yno gyda'i dau fab, bechgyn bach prysur iawn – Nolan a Siôn, y ddau ohonynt yn rhugl yn Gymraeg a Ffrangeg.

**Heledd**
Aeth Heledd hefyd i brifysgol Leeds, i astudio Ffrangeg a Chysylltiadau Rhyngwladol. Ar ôl graddio cafodd swydd ym mhrifysgol Caerdydd yn adran Cyfleoedd Byd-eang, yn trefnu i fyfyrwyr dreulio amser tramor, naill ai yn astudio, gweithio neu yn gwneud gwaith gwirfoddol. Tra yng Nghaerdydd fe gyfarfu â Neil oedd yn gweithio fel fferyllydd yn yr ysbyty. Bachgen o Ogledd Iwerddon yw Neil ac yn ystod y cyfnod clo fe benderfynodd y ddau ohonynt symud i fyw i Belfast. Ar ôl parhau i weithio o bell i brifysgol Caerdydd am gyfnod, llwyddodd Heledd i gael swydd tebyg ym mhrifysgol Ulster yn Belfast. Mae'r ddau ohonynt yn brysur yn trefnu eu priodas yn haf 2023.



*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***



*Perchnogion : Gwyn & Janet Evans*
*Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS*

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nos.*

*Ffôn 01970 820013*
*ebost : gwyn@ ct-evans.com*

WEST WALES ANTIQUES CAPEL BANGOR

Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!

Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau

www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com






# O Geredigion i Wcráin: O Bwyth i Bwyth

*Cydweithio mae'r clymau, dal llaw yn gytun.*
*Miloedd o ddwylo'n gwehyddu yn un.*
*A'r llafur yn gariad, yn gysur, yn nerth*
*Y plethu drwy'i gilydd a rydd iddynt nerth.*
*Enfys Hatcher Davies*



Yn Awst 2022 cludwyd sgarff anferth chwarter milltir o hyd o babell Merched y Wawr ar faes Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Nhregaron i'r Babell Lên. Roedd y sgarff enfawr yn rhan o'r sialens o ail gysylltu aelodau Merched y Wawr Rhanbarth Ceredigion ar ôl y pandemig. Arweiniodd y cyfan at greu ffilm lwyddiannus iawn ar Gwlân, Gwlân o dan nawdd y Loteri Genedlaethol.

Cymerodd 160 o aelodau ran uniongyrchol yn y ffilm ynghyd a bron pob un o'r 900 aelod mewn gweithgareddau amrywiol ar eu haelwydydd, dros Zoom neu yn gymdeithasol. Y criw gweithgar a fu'n gyfrifol am y ffilm oedd Lowri Steffan, Anna ap Robert a chwmni Garnfach gyda chymorth Enfys Hatcher Davies a Carys Mai.

Erbyn hyn mae'r ffilm wedi cael ei dangos ar hyd a lled Ceredigion, sir Gar a Phenfro ac yn teithio i dde Cymru, Powys a Llundain yn y dyfodol agos. Ond beth am y Sgarff?

Dros fisoedd oer y gaeaf mae aelodau'r Rhanbarth wedi llwyddo i ailwampio'r sgarff i greu darnau i gadw pobol yn gynnes. Ar brynhawn Sadwrn Ionawr 28ain cynhaliwyd te dathlu ar gampws Coleg y Drindod Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan yng nghwmni ein llywydd cenedlaethol Jill Lewis a'n cyfarwyddwraig Tegwen Morris. Y wraig wadd oedd Jayne Holland sy'n rhedeg bwyty Veganishmum ym mhentre' Penboyr, Drefach Felindre. Cafwyd hanes y gwaith mae hi a'i gŵr Rob yn ei wneud i gasglu a chludo nwyddau i'r Wcráin. A dyna ddiwedd taith y sgarff. Cyflwynwyd y rhan fwyaf iddi i'w cludo allan ar eu taith nesaf yn Chwefror. Cyflwynir gweddill y sgarff i elusennau o fewn Ceredigion sy'n cefnogi ein trigolion sy'n dioddef o effaith tlodi tanwydd y gaeaf hwn.

Diolch i holl aelodau Merched y Wawr Rhanbarth Ceredigion a fu'n brysur yn creu'r sgarff, yn cyfrannu i hwyl y ffilm Gwlân, Gwlân ac i'r rhai a fu'n ailwampio'r cynnyrch i'w gyflwyno i eraill. Diolch enfawr hefyd i Jayne a Rob Holland wrth gasglu a chludo adnoddau hanfodol i gefnogi trigolion yr Wcráin yn y cyfnod anodd hwn.

Da'n gilydd, o glicio a gweithio a gwau
A datod, cywiro'i berffeithio pob bai.
O bwyth i bwyth heddiw, clic cliciwn yn braff.
Yng ngwlanen ein mudiad, mae'n fory ni'n saff.
*EHD*

## Goginan

**Awdur ar restr hir gwobr Brydeinig**

Dewiswyd cyfrol gyntaf Caryl Lewis - *Drift* fel Llyfr y flwyddyn gan y siop Waterstones. Ac mae cyfrol arall Saesneg – *Seed* yn un o 21 teitl sydd wedi cyrraedd rhestr hir Gwobr 2023 Branford Boase 2023. Gwobr yw hon a ddyfernir i awdur am lyfr cyntaf arbennig i blant gan awdur. Mae'n argoeli i fod yn flwyddyn lewyrchus i'r awdures.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn gyda Amanda ac Eifion Roberts, Ffynnon Wen, Goginan ar farwolaeth tad Amanda – Jim Seaton yng Nghnwch Coch ar 30 Rhagfyr.














# Capel Bangor /Pen-llwyn

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Heulwen Lewis ac Aeronwy Lewis sydd wedi colli dau berthynas yn ddiweddar; gor-nai, Dylan Richards o Norwich ond yn enedigol o'r Borth a chwaer yng nghyfraith, Beti Watkins a oedd wedi ymgartrefu yng Nghysgod y Coed, Llanilar ers nifer o flynyddoedd

**Cyhoeddi CD**
Llongyfarchiadau i Daniel Laws, Maes y Meillion wrth iddo lansio ei CD gyntaf *Fy Ngwlad fy hun, This Land of Mine*. Yn ei eiriau ef ei hun "Hon yw'r gyntaf o'm caneuon EP, sef caneuon gwreiddiol a ysgrifenais ac hefyd y byddaf yn eu canu. Mae'r CD yn cynnwys ystod eang o gerddoriaeth, rhai yn ddoniol, rhai yn feddylgar a rhai yn ysbrydoledig. Hyderaf y cewch






foddhad o'u gwrando a diolch am y cyfle i'w hysbysebu".

Yn frodor o Dregaron, bu Daniel yn gweithio yng Ngogerddan a threuliodd bron y cyfan o'i fywyd yn y byd amaethyddol. Caiff ei ddylanwadu gan gefn gwlad Cymru ac yn ogystal a bod yn un o'r ddeuawd Brenig efo Mandy Martin sydd yn chwarae y nmandolin, mae yn rhedeg yClwb Gwerin Aberystwyth sydd yn cyfarfod ar ddyddiau Mercher yng Nghlwb Pel-droed Penparcau.

Mae chwe chân ar y CD yn amrywio o 'Yr Wyddfa' i 'Bob The Rooster' Fe'i comisiynwyd i ysgrifennu y gân gyntaf ar gyfer yr arlunydd Aneurin Jones gynorthwyodd iddo godi swm i gyfieithu ei gyfrol ar ei waith a'i fywyd o'r Gymraeg i'r Saesneg.

'Rwy'n siwr y cawn bleser o ymlacio dros baned a gwrando arni, pob dymuniad da i chi Neil - ymlaen bo'r nod.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Mrs. Sian Laws, Maes y Meillion gan iddi dorri ei garddwn wrth gwympo ychydig amser yn ôl, Pwyll piau hi bob amser! Brysiwch wella yn fuan iawn.

**O'r ysbyty**
Da deall hefyd fod Mr. Sid Clench a Mrs. Marie Howells adre o'r ysbyty erbyn hyn ar ôl treulio sawl wythnos ym Mron-glais. Dymuniadau gorau iddynt eu dau.

**Dydd Gweddi'r Byd**
Bwriedir cynnal gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 2 o'r gloch ar ddydd Gwener y 3ydd o Fawrth. Thema y gwasanaeth eleni yw "Clywais am eich Ffydd" a gwragedd Cristnogol Taiwan fu'n paratoi y deunydd ar ein cyfer. Croeso cynnes i bob un.

# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Suliau**
**Madog**
**2.00**
*Chwefror*
19
26 Bugail

*Mawrth*
5
12 Bugail
19
26 Bugail

**Marchnad Aberystwyth**
**04.02.2023**
7 prynwr yn bresennol a gwell galw am yr ŵyn. Gwerthodd pob math o famogiaid yn dda fel y gwnaeth yr hyrddod.

Prisiau fel a ganlyn:-
Mamogiaid lladd (744)
Amcg - £58.40
Mwy - Morgan, Pwll-glas £138
Jerman, Rhiwbrongelli £136
Prifysgol Aberystwyth £130
Griffiths, Cwmbyr £127
Hyrddod (41)
Amcg - £71
Max - Evans, Pengraig £136



Innovis £126
Williams, Bwlchcrwys £112
Wyn (190)
Amcg - £57.80
Mwy - Theobald, Bryngolau £105
Morgan, Allt-goch £89.50
Thomas, Troedrhiwlwba £87.50
Prisiau fel yr uchod, yr ŵyn yn gwerthu yn well na'r disgwyl a'r defaid a'r hyrddod yn hawdd i'w gwerthu. Diolch am eich cefnogaeth.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Defi John Morris, Y Fronfraith, sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

**Cyfarchion**
Anfonwn gyfarchion i Eirian Hughes, Lluest Fach, Capel Madog fydd yn dathlu pen blwydd arbennig ar y 24ain o Chwefror. Mwynhewch yr achlysur a phob dymuniad da i'r dyfodol.



**Rygbi dan 12**
Llongyfarchiadau i Lleucu a Gruffudd Gellinebwen ac Elan Rowlands, Rhos-goch am chwarae yn arbennig i dim Rygbi Aberystwyth dan 12 yn rownd yr wyth Olaf yng nghwpan Sir Benfro. Ac i Llywelyn Evans, Gellinebwen, am eu hyfforddi. Gêm gwerth ei gwylio! Aberystwyth 17 Arberth 15. Ymlaen i'r rownd gyn-derfynol! Amdani!

# Enwau lleoedd

## Angharad Fychan

Y mis diwethaf, bûm yn trafod enw plas *Lovesgrove* neu *Gelli Angharad* ger Capel Dewi. Enw arall a ddefnyddid am y plasty a'r stad hyd yn gymharol ddiweddar oedd *Lifin*.

Tebyg mai dyna'r enw yr oedd Hugh Rees (tad Syr John Rhys, yr ysgolhaig Celtaidd o Bonterwyd) yn ceisio'i gyfleu yn ei gofiant a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn *Cyfaill o'r Hen Wlad* yn 1886, ond bod gosodwr y teip wedi camddarllen y llythyren *l* yn y llawysgrif am *s*:

hwnw. Cefais i a fy ngwraig flynyddau o amser caled er gallu dyfod i fyny a'r gofal oedd arnom. Pan oeddem bron dyfod ar ein traed, daeth hen *lease* Sivin i fyny, a bu raid i mi ymadael o Aberceiro yn fuan ar ol hyn. Hen deulu y Sivin oedd yn perchen Aberceiro, ac wedi i'r hen wraig a'i phlant ddyfod yno, deallais nad oedd fy Nhad Nefol yn bwriadu i mi gael rhyw lwyddiant mawr yn y byd hwn.

*Cyfaill o'r Hen Wlad* 49 (1886) t.348 (LlGC)

Yn ôl *The Place-Names of Cardiganshire* (2004, t.1015) *Lifin* a *Phlas y Lifin* oedd yr enwau a ddefnyddiai Elsie Williams, Cymau Bach, Comins-coch, am blas *Lovesgrove*. Digwydd yr un elfen yn yr enw *Lôn Lifin* sy'n parhau i gael ei arddel heddiw am y ffordd sy'n rhedeg o gyfeiriad Capel Dewi, rhwng plas a fferm *Lovesgrove*, cyn gwyro tua'r dwyrain ar hyd cefn safle Mart Aberystwyth i gyfeiriad Pentref Rhydonnen.

Ymddengys bod yr elfen *lifin* yn fenthyciad o'r Saesneg *living* yn golygu 'bywoliaeth'. Ond beth yn union fyddai ei arwyddocâd yn yr enwau hyn?

Mewn llythyr a gyhoeddwyd yn *Y Tincer* 303 (Tachwedd 2007) t.16, noda Erwyd Howells (a fu'n fugail yn Lovesgrove yn yr 1970au) mai enw un o'r caeau yng Nghwm Tŷ-llwyd ar y llechwedd y tu cefn i safle'r Mart oedd *Cae Capel*. Gellir olrhain yr enw hwnnw yn ôl i Fap Degwm Llanbadarn Fawr yn 1845, ac ymhellach i fap llawysgrif 'A Map Of the Demeasn Lands of Lovesgrove and Ty Llwyd' yn 1769 (LlGC), gyda'r ddwy ffynhonnell yn cofnodi'r ffurf *Cae'r Cappel*.

Er nad oes unrhyw olion o gapel i'w gweld yn y tirlun heddiw, dengys erthygl 'Traddodiadau Tafarn Magl' yn *Cymru* 9 (1895) t.278-9 bod coel gwlad lleol bod 'eglwys neu fonachlog yn flodeuog iawn un adeg' yng Nghwm Tŷ-llwyd. Tybed felly a yw'r enw *Cae Capel* yn cadw cof o gapel anwes (yn gysylltiedig ag eglwys Llanbadarn Fawr efallai) a bod yr elfen *lifin* yn enw'r plas a'r lôn yn cyfeirio at fywoliaeth swyddog eglwysig ar gyfer gwasanaethu'r capel hwnnw?




Ar fap Lewis Morris, 'A Plan of the Mannor of Perveth' [1744] (LlGC), nodir yr enw *Cap Elen* yn yr union ardal hon. Prin iawn yw defnydd Lewis Morris o fyrfoddau ar ei fap, ond mae'n rhesymol cymryd bod *Cap* yn cynrychioli'r gair *Capel*. Os felly, mae dadl gref dros gredu mai *Capel Elen* oedd enw'r hen gapel diflanedig.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

## Llongyfarchiadau i enillwyr cystadleuaeth i bl 5 a 6 y Tincer




**1af – Mirain,**
**Ysgol Rhydypennau**



**CYDRADD 2il – Manon,**
**Ysgol Pen-llwyn**



**Cydradd 2il – Gabriel,**
**Ysgol Penrhyn-coch**



**3ydd – Mya,**
**Ysgol Penrhyn-coch**

# Bow Street


Llun: Vaughan Griffiths

**Cerddwyr Rhydypennau wedi cyrraed meini'r Fuwch a'r Llo ger Esgair Gorlan yn ardal Nant yr Arian.**

**Suliau**
**Capel y Garn**
**10.00**
*Chwefror*
**19** Rhidian Griffiths
**26** Bugail

*Mawrth*
**5** Wyn Morris
**12** Bugail
**19** Bugail
**26** Bugail

**Suliau Noddfa**
**(Pob Oedfa am 10.00)**
*Chwefror*
**26** Richard Lewis

*Mawrth*
**5** Uno yn y Garn
**12** Richard Lewis. Cymundeb.
**19** Cyfeillach.
**26** Richard Lewis

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Yn ein cyfafod mis Rhagfyr derbyniwyd Cyfarchion y Tymor oddi wrth ein Llywydd Cenedlaethol, croesawyd ni i gyd gan ein Llywydd ac wedi ychydig o ohebiaeth aethom ymlaen at weithgaredd y pnawn. Y wraig wadd oedd y gogyddes Mirain Haf. Roedd Mirain yn adnabyddus i'r mwyafrif ohonom gan bod ei mam Llinos yn un o blant y pentre. Tasg y prynhawn oedd gwneud addurniadau ar gyfer cacennau bach. Roedd wedi dod ac eisin ffondant mewn gwahanol liwiau ac aeth pawb ati yn ddiwyd i greu Pengwin, Robin Goch a dyn eira. Wedi paned a chlonc dymunodd y pwyllgor Nadolig Llawen I bawb.

**Mis Ionawr**
Dyma ni wedi cyrraedd 2023. Ychydig oedd y nifer y mis hwn – tipyn o salwch o amgylch. Dymunodd y llywydd yn dda a gwellhad buan i bawb. Ein gwr gwadd y mis yma oedd yr



arlunydd Gareth Owen - brodor o Lanuwchllyn - ond sydd bellach wedi ymgartrefu yn Aberystwyth. Dangosodd fraslun o'i waith i ni trwy gyfrwng sleidiau. Gwelwyd golygfeydd hyfryd o gylch Ffrainc, yn ogystal ac ambell un o Gymru. Talwyd y diolchiadau gan Nest, a paratowyd paned gan Ceris a Mair.



Mae gan Aberystwyth focs signal eto! Fe'i adeiladwyd i Reilffordd Cwmrheidol gan y crefftwr Carwyn Lloyd Jones yn y ffordd draddodiadol gyda ffram bren. Fe'i cynlluniwyd gan gynllunydd Rheilffordd Cwmrheidol, James Corbett, fel ei fod yn debyg i'r un safai yn wreiddiol yn Smithfield Road.

## Cymdeithas Lenyddol Capel y Garn

Gafel Yn Y Tir oedd pennawd cyfarfod diweddaraf Cymdeithas Lenyddol Capel y Garn, a chafwyd noson ddifyr eithriadol yng nghwmni Lowri Jones Pennaeth Datblygu a Phrosiectau Cwmni Golwg. Fe'i hadnabyddir fel Lowri'r Fron gan lawer, ac mae'r ffaith hwnnw yn adlewyrchu mai person ei milltir sgwâr yw Lowri. Roedd ei chlywed yn annerch yn amlygu ei dawn i ysbrydoli ac i ysgogi gweithgareddau lleol.

Daliwyd sylw'r gynulleidfa'n syth gan gasgliad o 'brops', yn cynnwys gwydr peint gwag yn y sêt fawr! Fe arweiniodd hwnnw yn syth at brif destun y noson sef menter gydweithredol prynu Tafarn Dyffryn Aeron – Tafarn y Vale. Yn hwyliog iawn, eglurodd Lowri goblygiadau prynu a rhedeg Tafarn y Vale yn adnodd i'r gymuned. Y nod yw sicrhau bod y Vale yn aros yn galon y gymuned; yn lle i bobl o bob oed ddod i gymdeithasu, ac i fudiadau lleol gynnal digwyddiadau. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd derbyn cyngor gan fentrau tebyg eraill, at yr heriau cyllidol, ac at gefnogaeth allweddol busnesau lleol a chyfranddalwyr. Talwyd teyrngedi'r tîm o wirfoddolwyr brwdfrydig a gweithgar sy'n cyflawni dyletswyddau amrywiol o'r gweinyddol a'r cyllidol i'r gweini a'r glanhau. Braf oedd clywed bod y fenter erbyn hyn wedi llwyddo cyflogi gweithiwr rhan-amser, a'u bod newydd gynnal Cyfarfod Cyhoeddus yn dilyn y flwyddyn gyntaf, a'u bod yn gallu cyfeirio at amrywiol lwyddiannau, a'u bod wedi gwneud elw.

Cyn ateb cwestiynau, fel cyn-gydlynydd Prosiect Bro 360, cyfeiriodd Lowri at y Rhwydweithiau Bro, ac at fwrlwm rhannu gwybodaeth, storïau a manylion am ddigwyddiadau lleol yn ddigidol. Rhannodd Lowri yr hyn a alwodd yn 'Wcw i oedolion'! Llyfryn Bro Ni oedd hwn, yn orlawn o syniadau am weithgareddau creadigol 'i bobol sy'n falch o'u Bro'.

Diolch am noson a oedd yn ysbrydoliaeth yn wir. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at noson nesaf y Gymdeithas Lenyddol, Chwefror 17, yng nghwmni Ian Gwyn Hughes, Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Croeso cynnes i bawb!



Chwiorydd y Garn, gyda'r Gweinidog, y Parch Ddr Watcyn James yn eu cyfarfod bnawn Mercher, 1 Chwefror. Yn ogystal â mwynhau paned a sgwrs, bu'r Chwiorydd wrthi'n paratoi stampiau oddi ar amlenni i'w hanfon at Gymdeithas y Deillion.

**Pen-blwydd Arbennig**

Erbyn y gwel y rhifyn hwn o'r *Tincer* olau dydd bydd Mr Gwynant Evans. Maes y Garn, (Elgar gynt), wedi dathlu ei ben blwydd yn 80 ar yr 11eg o Chwefror. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da iddo.



**Clwb Gwawr Y Pennau**

Nos Sadwrn 21ain o Ionawr cafodd yr aelodau eu cinio blynyddol yn y Wildfowler, Tre'r-ddôl. Cawsom fwyd blasus tu hwnt, digon o gyfle i sgwrsio a chwis hwyliog yn cynnwys cwestiynau am ddathliadau 2022, digwyddiadau 2023 a rownd luniau o ferched Ceredigion. Diolch i Delyth am drefnu'r cinio a Nest am wneud y cwis.

**Noddfa**

Mrs Mair Lewis oedd yn gyfrifol am Gyfeillach mis Ionawr. Yr ymadrodd "trem yn ôl" oedd y bachyn a ddefnyddiwyd ganddi i ail ymweld â rhai o'r perlau oedd wedi eu defnyddio mewn oefaon yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Darnau cofiadwy megis y gerdd 'Blychau' o waith T Rowland Hughes, myfyrdod ar yr adnod 'Peidiwch felly â phryderu am yfory, bydd gan yfory ei bryder ei hun. Digon i'r diwrnod ei drafferth ei hun' o waith y Parchg Robin Williams, myfyrdod yn dwyn y teitl 'Yr Adar ar eu Ffordd' o waith y Parchg John Gwilym Jones a gweddi ar ffurf emyn yn dwyn y teitl 'Dyhead am Ddeffroad Ysbrydol' o waith y Parchg Tudor Davies. Cafwyd cyfle hefyd i ail flasu rhai o seigiau y cyfarfod i ddathlu canmlwyddiant yr adeilad presennol a gynhaliwyd ugain mlynedd yn ôl yn 2003, sef cerdd a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan y Parchg O T Evans ac englyn i ddathlu'r achlysur o waith Huw Ceiriog Jones. Ar ddechrau'r mis lawnsiodd y Parchg Richard Lewis gynllun i ddarllen y Testament Newydd o'i ddechrau i'w ddiwedd mewn 90 o ddiwrnodau ac yn ddiddorol iawn fe gymerodd yr aelodau 10 copi allan o'r 15 copi o'r cynllun oedd wedi eu paratoi. Ymuno â'r gynulleidfa yn y Garn fu ein hanes ar Sul olaf y mis.

**Profedigaeth**

Gyda thristwch mawr y derbyniwyd y newyddion am farw Meinir Lowry, Rhoslan, dydd Llun, 30ain Ionawr. Yr oedd wedi brwydro'n ddewr yn erbyn ei salwch ac wedi gwerthfawrogi'n fawr ffyddlondeb ei chyfeillion pennaf iddi drwy'r cyfan. Yr ydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant â'i theulu a'r cysylltiadau oll.

**Neuadd Rhydypennau**

Yn rhan o'n Boreau Coffi 'Hwb Cynnes' am ddim yn Neuadd Rhydypennau, mae Dysgu Bro dydd Gwener 17 Chwefror o 10.30-12.00 yn cynnig sesiwn Cadw'n Ddiogel Ar-lein. Os ydych yn gofidio am gael eich 'sgamio' neu'ch 'hacio', dewch atom i ddysgu sut i amddiffyn eich hunain. Hefyd ar gael bydd 'gweithdy I.T.', i chi ddod â'ch ffôn/tabled/gliniadur er mwyn cael cyngor ar unrhyw broblem. Ymunwch â ni am baned yr un pryd.

**Dydd Gweddi byd-eang y chwiorydd**

Cyhelir oedfa eleni fore Sul Mawrth 5 am 10.00 yng Nghapel y Garn.

**Gwerthfawrogiad**

Mae'n dda cael ar ddeall bod nifer wedi mynegi gwerthfawrogiad o'r gwaith y mae aelodau Pwyllgor Henoed Bow Street a Llandre wedi ei gyflawni yn yr ardal eleni eto; y trip siopa, yr anrheg Nadolig a'r ymweliad â'r Pantomeim yn arbennig. Diolch yn fawr iawn.

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2023

### 21-22 Ebrill, 2023

**Testunau llenyddol**

Dyma destunau llên yr Eisteddfod; y beirniad yw y Prifardd Emyr Lewis, Aberystwyth, a dylai cyfansoddiadau gael eu gyrru trwy'r post i'r Ysgrifennydd Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HE neu e-bost i Ceris. Gruffudd@gmail. com cyn 25 Mawrth 2023.

1. Cadair: Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 50 llinell yn ymateb i unrhyw waith celf — Cadair fach a £50.00
2. Englyn: IBERS — £10.00
3. Telynegar fydr ac odl : Ymadael — £10.00
4. Cerdd benrhydd am unrhyw aderyn: — £10.00
5. Limerig: 'Fe glywais i am rywbeth ofnadwy' — £10.00
6. Brawddeg: CYWILYDD — £10.00
7. Stori fer yn cynnwys unrhyw gymeriad chwedleuol — £10.00
8. Erthygl am unrhyw siop, garej neu fusnes teuluol — £10.00
9. Adolygiad o berfformiad dramatig Cymraeg — £10.00
10. Tlws yr Ifanc i rai dan 21 oed: Ailwylltio: Ie neu Nage
    Y gwobrau yn rhoddedig gan Aaron ac Ashley Stephens — Tlws a £20.00

# Ysgol **Rhydypennau**

**Llangrannog**
Ar fore'r 11ain o Ionawr, fe deithiodd plant blwyddyn 3 a 4 i wersyll yr Urdd, Llangrannog am ddau ddiwrnod o ddifyrrwch. Yn ystod y cymdeithasu a'r hwyl, bu'r plant yn brysur iawn yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol gan gynnwys gwibgartio, saethyddiaeth a dringo. Dychwelodd y plant i'r ysgol wedi blino'n lân ond wedi mwynhau profiadau'r gwersyll yn fawr iawn.





Bwyta bwyd Chineaidd

**Perfformiad**
Braf iawn oedd croesawu Cwmni Theatr Arad Goch i'r Ysgol yn ddiweddar. Mae sawl blwyddyn wedi mynd heibio bellach ers i ni fwynhau perfformiad ganddynt. Braint plant y Cyfnod Sylfaen oedd hi'r tro hwn ac yn wir, roeddynt wrth eu bodd gyda'r perfformiad diweddar; 'Ble mae'r dail yn hedfan'. Hoffa'r ysgol ddiolch o galon i'r criw am berfformiad gwych arall.

**Dathlu a gwledda!**
Buom yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen yn yr ysgol yn ddiweddar. Mi fuodd y plant yn brysur yn gwrando ar hanes y stori a gwneud cardiau i ddathlu'r achlysur.

Buodd plant y Meithrin yn dysgu am Flwyddyn Newydd Chineaidd ar ddiwedd fis Ionawr. Cafodd y plant gyfle i flasu bwyd Chineaidd gan ddefnyddio ffyn bwyta yn hytrach na chyllell a fforc!

I ychwanegu at y cyffro, fe gafodd y plant flasu cacen siocled Mr Nathan Davies, cogydd arbennig Bwyty' SY23'! Mae Nathan yn riant yn yr ysgol ac yr oedd hi'n bleser ei groesawu ef aton ni yn ddiweddar. Ac fel allwch chi ddychmygu, roedd y gacen yn wych! Diolch yn fawr iawn iddo am dreulio ychydig o'i amser prin gyda ni.

**Chwaraeon**
Da iawn i'r tîm nofio am gystadlu mor wych yn ngala cylch Aberystwyth yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol-Iestyn Evans (bl 5)-Rhydd-1af; Wil Jones (bl 5) Cefn-1af a 50m Rhydd-1af; Ted Jones (bl 6) Pili Pala-1af a 50m Rhydd-1af. Tîm Cyfnewid Bechgyn Blwyddyn 5-1af; Iestyn Evans, Finnley James-Chandler, Morgan Payne a Wil Jones. Ardderchog!



Nathan Davies Cogydd SY23.



Meithrin yn dathlu Dwynwen



Arad Goch



Plant y gala

# Ysgol **Craig yr Wylfa**

**Ysgol Iach**
**Gala Nofio**
Mae mis Ionawr wastad yn brysur yn y pwll nofio i ysgolion Cylch Aberystwyth. Aeth tîm o'r ysgol i gystadlu unwaith eto eleni ac fe gafwyd sawl perfformiad arbennig o dda. Llongyfarchiadau mawr i Iyla, Finn, Liam a Tyler am gystadlu mor frwd yn erbyn ysgolion eraill.

**Siarter Iaith**
**Gwersyll yr Urdd, Llangrannog.**
Ers rhai blynyddoedd bellach mae'r ysgol wedi trefnu gwibdaith i Wersyll yr Urdd Llangrannog yn ystod mis Ionawr. Eleni, tro Blwyddyn 3 a 4 oedd hi i fynd ac ar ôl gorfod gohirio'r ymweliad sawl gwaith dros y blynyddoedd diwethaf, roedd hi'n braf gallu mynd o'r diwedd. Roedd hi'n hyfryd i weld pawb yn mwynhau mynd ar y beiciau cwad, llithro ar wrth wibgartio a herio eu hunain ar y rhaffau uchel a'r trampolîn. Roedd hi'n hyfryd gweld cyfleoedd i gymdeithasu gydag ysgolion eraill yn y gampfa ac yn y disgo. Diolch yn fawr iawn i'r staff am fod mor gefnogol ar y gweithgareddau ac am y bwy blasus. Roedd hi'n hyfryd hefyd i wneud ffrindiau newydd gyda phlant Ysgol Tal-y-bont.

**Ysgol y Gymuned**
**Cwmni Theatr Arad Goch**
Mae hi bob amser yn braf i groesawu Theatr Arad Goch i berfformio. Mae ganddyn nhw stori hyfryd i'w rannu ymhob perfformiad i'r plant lleiaf a doedd y tro yma ddim gwahanol gyda 'Ble Mae'r Dail yn Hedfan'. Roedd hi'n hyfryd i weld y pant yn ymateb mor frwdfrydig i'r actio a'r symudiadau. Braf oedd cael mynd i ymuno gyda disgyblion Ysgol Tal-y-bont hefyd.







**Gwobr**
Llongyfarchiadau mawr i'r plant am ennill gwobr efydd yr RSPB yn ystod y mis am eu gwaith yn arsylwi ar fyd natur o gwmpas yr ysgol. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda gyda'n gwaith Ysgol y Goedwig. Da iawn chi blant.

**Gwrach Cors Fochno**
Un amser chwarae fe wnaeth Emmy a Mia ddod o hyd i het a darn o glogyn gwrach mewn sietyn yn yr ysgol. Ond pam eu bod nhw wedi cyrraedd yr ysgol? Sut gyrhaeddon nhw? A beth oedd ystyr y neges ryfedd oedd tu fewn yr het – "Helpwch Fi!" Mae'r plant wedi mwynhau clywed hanesion am Hen Wrach Cors Fochno fel rhan o'n gwaith ar ddysgu am yr ardal leol.

**I Mewn I'r Arch Â Nhw!**
Diolch yn fawr i Miss Ann am drefnu gweithgareddau diddorol yn seiliedig ar stori Arch Noa. Roedd y plant wedi cael bore cyffrous iawn yn dysgu'r stori a'r gân adnabyddus wrth gwrs. Ond yr uchafbwynt heb os oedd y cyfle i wisgo fel y gwahanol anifeiliaid a cherdded i'r arch a adeiladwyd gan blant hŷn yr ysgol.





SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092

Shan ac Alys Jones

GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

# Ysgol **Pen-llwyn**

**Llangrannog-Blwydddyn 3 a 4**
Cafwyd deuddydd arbennig o dda yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog wrth I ddisgyblion Bl 3 a 4 teithio yno gyda nifer o blant dros Ceredigion. Braf gweld y gwersyll unwaith eto ond y tro hwn roedd nifer o newidiadau wedi digywdd I'r safle! Neuadd ymgynull a Neuadd fwyta modern iawn ac wrth gwrs cafwyd digonedd o fwyd blasus!

Roedd yr amserlen yn llawn dop! Saethyddiaeth, gwibgartio, cwrs antur, rhaffau uchel i enwi ond rhai! Rydyn yn ffodus iawn I gael y fath gyfleusterau a hoffwn ddiolch I staff yr Urdd am eu gofal.

Dyma deimladau Megan:

Roedd Llangrannog yn llawer o hwyl. Fe wnes i fwynhau y trampolins, rhaffau uchel a'r saethyddiaeth. Roedd y bwyd yn flasus iawn. Roeddwn yn falch dod adre i'r gwely ar ôl aros lan trwy'r nos yn bwyta losin!

**Partneriaeth darllen**
Rydyn wedi bod yn ffodus I gychwyn ar raglen darllen gyda chriw o wirfoddolwyr cangen WI Capel Bangor. Mae'r disgyblion wrth eu boddau yn cael darllen a sgwrsio bob wythnos-maent hefyd yn mwynhau trafod y testun.

**Gala Nofio**
SBLASH!!!Buodd Manon, Llinos, Andi a Dyfrig yn cynrychioli'r ysgol yng Ngala nofio y cylch yn ddiweddar-da iawn chi!

Llongyfarchiadau I Manon ar ennill yr ail safle yng nghystadleuaeth y Tincer.

**Sesiwn Pêl droed**
Cafwyd sesiwn hwyliog iawn wrth I Mr Shepherd a Mrs Huws gynnal sesiwn pêl-droed I blant y Cylch Meithrin- pêl droedwyr o fry!














**y tincer**
Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Ysgol **Penrhyn-coch**






**Croeso**
Croeso i Rhisiart ap Marshall sydd wedi ymuno gyda ni ym mlwyddyn 1. Cawsom wythnos i groesawu Rhisiart a’r flwyddyn newydd gan ddysgu caneuon Calennig, dysgu am hanes y Fari Lwyd ac addurno’r rhifau 2023.

**Cystadleuaeth Y Tincer**
Llongyfarchiadau mawr i Gabriel (cydradd 2il) a Mya (3ydd) am eu llwyddiant yng nghystadleuaeth y Tincer i flwyddyn 5 a 6 am gofnodi eu gobeithion i’r flwyddyn 2023.

**Arbrawf Y System Dreulio**
Ar ôl llenwi ein boliau dros yr ŵyl, penderfynodd disgyblion CA2 ddysgu sut mae ein system dreulio yn gweithio. Am arbrawf a hanner!

**Iâ, iâ, iâ**
Iâ, iâ, iâ yw thema’r hanner tymor yn y Cyfnod Sylfaen gyda ffocws ar Wyddoniaeth a Thechnoleg. Mae sawl iglw wedi adeiladu, nifer o straeon a llawer o gyffro i ddadmer iâ. Mae’r plant wedi mwynhau dysgu am daldra pengwiniaid gwahanol a ffeithiau diddorol amdanynt. Buon ni’n ffodus o’r tywydd oer i helpu dysgu am rew ac eira.

**Gala Nofio Cylch Aberystwyth**
Bu rhai disgyblion yr ysgol yn cystadlu yng Ngala Nofio Cylch Aberystwyth yn ddiweddar. Da iawn i bob un ohonoch am gymryd rhan a llongyfarchiadau calonnog i Sofie, Caio, Moli ac Elena am gael safle! Nofwyr chwim ein hysgol.

**Llangrannog – Bl 3 a 4 – Trip Preswyl**
Roedd Bl3 a 4 wedi joio mas draw yn Llangrannog. Deuddydd llawn hwyl a sbri. Roeddent wrth eu bodd yn gwibgartio, dilyn cwrs rhaffau uchel, dringo'r wal ddringo, saethyddiaeth â'r cwadiau. Heb sôn am weithgareddau' r nos : bingo, cyfle i wneud bach o siopa yn y siop, chwarae pêl-droed o dan olau'r astro, toddi malws melys a disgo i orffen! Deuddydd i gofio - diolch yn fawr iawn i Langrannog!



**Cwis Dim Clem – Rhanbarth Ceredigion**
Sut mae eich gwybodaeth am Gymru? Wel, yr oedd Caio, Gruff, Rhys a Twm wedi gwneud ymdrech wych yng nghwis Dim Clem Menter Iaith Ceredigion. Roedd gan y pedwar wybodaeth eang am Gymru a braf oedd clywed nhw yn ateb y cwestiynau. Da iawn chi fechgyn!




**Dydd Santes Dwynwen**
Ar Ionawr 25ain roedd calonnau ymhob man i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen. Roedd amrywiaeth o dasgau creadigol ond yr uchafbwynt yn Nosbarth 2 oedd coginio ac addurno bisgedi. Siâp calonnau oedd y bisgedi wrth gwrs.





# Tasg y Tincer

Diolch yn fawr i bawb fu wrthi'n lliwio llun y ddraig yn mwynhau dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Daeth dreigiau o bob lliw drwy'r post gan Anest Jackson, Bow Street; Tirion a Carian Evans, Y Borth; Elsi Wyn Lewis, Capel Bangor – a diolch arbennig i ti, Elis Jackson, am dy lun arbennig yn llawn cymeriadau a siapiau difyr!



Tirion

Dy enw di, Tirion, ddaeth o'r het y tro 'ma – hwrê mawr!

Mae bron iawn yn wyliau hanner tymor. Bydd yn braf peidio gorfod codi mor gynnar yn y bore ... na mynd i'r gwely cweit mor gynnar yn y nos! Ac mae Dydd Gŵyl Ddewi bron â chyrraedd, ar Fawrth y 1af, wrth gwrs. Ydech chi'n cael eisteddfod yn yr ysgol neu wasanaeth? Cofiwch am y parêd drwy strydoedd Aberystwyth ar 4 Mawrth hefyd – dewch â'ch baner draig goch!

Mae rhywbeth pwysig iawn yn digwydd ar ddydd Iau, 2 Mawrth hefyd, sef Diwrnod y Llyfr. Tybed sut fyddwch chi'n dathlu? Trwy wisgo fel eich hoff gymeriad, falle, neu trwy fynd â'ch hoff lyfr i'r ysgol? Falle fod clwb darllen yn eich ysgol – neu beth am ffurfio un?



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Y mis hwn rhowch gynnig ar liwio llun y plant yn mwynhau darllen eu llyfrau. Mae ganddyn nhw stori'r tri mochyn bach, stori am fwci-bo (Ynyr yr Ysbryd a'r Coblyn Bach falle), a stori am dylwythen deg (Miri falle). Pa un o'r rhain fyddech chi'n ei ddewis o'r silff? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Mawrth. Ta ta tan toc!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 456 | Chwefror 2023*